

Deugain Mlynedd yn Ddiweddarach

FORTY YEARS ON



Mae grŵp o gyn fyfyrwyr a
thiwtoriaid yn meddwl am eu
bywydau, a gyfoethogwyd gan
brofiad ysgol gelf yng Nghasnewydd.

31 Mawrth - 4 Gorffennaf 2020

Yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd Sgwâr
John Frost Casnewydd De Cymru NP20 1PA
Ffôn: 01633 656 656

A group of former students
and tutors reflect on their
lives, enriched by an art school
experience at Newport.

31 March - 4 July 2020

At Newport Museum and Art Gallery
John Frost Sq. Newport South Wales NP20 1PA
Tel: 01633 656 656

CYDNABYDDIAETHAU

Diolch o galon i Mike Lewis a Chyngor Dinas Casnewydd am ganiatáu i mi gynnal yr arddangosfa hon, ac i Sian Iles, Oliver Blackmore, Kevin Barry a Barbara Bartl am eu cymorth amhrisiadwy wrth greu'r project.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hefyd i ddiolch i Julian Cole am rannu eu sgiliau a'i amser mewn ffordd mor hael wrth ddylunio a chynllunio llyfryn gwych yr arddangosfa. Byddaf yn ddiolchgar iddo am byth.

Hoffwn ddiolch hefyd i Glenn Marshall am ymgymryd â her dylunio'r poster, gwahoddiadau, a chlawr y llyfryn mewn cydweithrediad â Julian (Glenn ddyluniodd ein poster gradd gwreiddiol yn 1980). Diolch yn fawr iawn iddo am roi o'i amser ac am gyfrannu ei sgiliau at y gwaith gwych hwn.

Diolch yn fawr iawn hefyd i Cathy Cooper am ei chymorth, ei chefnogaeth a'i hanogaeth o'r cychwyn cyntaf.

Diolch hefyd i Dr. Peter Wakelin am ei ddiddordeb a'i ymwneud â'r project ac am ddod i'w agor yn swyddogol i ni.

I gloi, diolch yn fawr i bob un o'r arddangoswyr sydd wedi ymateb mewn ffordd mor odidog ac am ganiatáu i fi greu'r arddangosfa hon.

Neil Carroll
Curadur yr Arddangosfa

40 MLYNEDD YN DDIWEDDARACH ARDDANGOSFA 2020 CASNEWYDD

Yn AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASNEWYDD
SGWÂR JOHN FROST CASNEWYDD.

MAWRTH 31AIN | ORFFENNAF 4YDD

Cyflwyniad

Dosbarth 1980

Fel dosbarth 1980, cawsom ein geni yn y 1950au ar ôl y rhyfel ac fe'n ffurfiwyd i raddau helaeth drwy gael ein magu yn y 1960au a'r 70au.

Yn ôl natur a magwraeth, roedd ein blynyddoedd ffurfiannol yn ystod y degawdau hynny yn llawn o amsugno'r hyn oedd o'n cwrmpas ac roedd pobl bwysig i'w cael fel teulu ac athrawon a fyddai'n ein hannog ar hyd y daith i fod yn greadigol ac i ddilyn ein breuddwydion.

O Hippies i Zippies ac o Olew Patchouli i Gerddoriaeth Pync!

Yn sicr fe ystyriwyd ac amsugnwyd y profiadau hudolus a gafwyd ymhlith ystod amrywiol o diwtoriaid a myfyrwyr yng Ngholeg Celf Casnewydd.

Dywed John Exton, "Yng Nghasnewydd fe gwrrdes i â phobl o bob rhan o'r wlad a agorodd orwelion eang i mi gan ehangu fy nealltwriaeth o'r byd yn yr ystyr ehangaf. Dysgon ni oddi wrth ein gilydd, mentora a chefnogi'n gilydd, gan rannu syniadau a thechnegau"

Gyda hyfforddiant un i un, tiwtorialau, darlithoedd, astudiaethau beirniadol a hanesyddol, clybiau a chymdeithasau, roedd ein gorwelion yn sicr yn cael eu hehangu o dan y gromen werdd ac roedd cerddoriaeth, llenyddiaeth, teithio, theatr a ffilm oll yn feysydd yr anogwyd ni i geisio'u dirnad.

Dywed Roger Lougher "Fy nechrau fel person annibynnol. Dyma pan gyfarfûm â phobl a roddodd ganiatâd i mi fod yn fwy fel fi fy hun. Hwn hefyd oedd y golled gyntaf, roeddwn i'n symud ac yn cael fy symud y tu allan i'r byd y cefais fy magu ynddo."

Yr oedd y coleg o bwysigrwydd rhyngwladol, byddai Josef Koudelka yn ymweld ac yn cael ei ddiet cyffredin o datws stwnsh yn y ffreutur, roedd David Hockney ac Ian Dury yn ddarlithwyr ymweld. Bu Brian Eno yn gweithio gyda'r myfyrwyr ar ddarn a berfformiwyd ganddynt yn Neuadd Albert. Daeth Bob Dylan i Hop yn y coleg, ac fe chwaraeai Van Morrison y piano mawreddog yn y neuadd yn ystod prynhawniau'r coleg.

Lle arbennig iawn yn wir.

'Y Port'

Yn sicr, cafodd Casnewydd fel dinas ei dylanwad ar lunio ein barn ni fel pobl ifanc. Dinas amlddiwylliannol yw'r 'Port' sef 'Newport', ac roeddem yn byw mewn ardaloedd a oedd yn newydd i ni. Mae'r cymoedd dwyreiniol, ac yn gwbl wrthgyferbyniol, mae'r Sir Fynwy wledig gerllaw ac yn yr un modd ddinasoedd cyfagos Caerdydd a Bryste.

Dywed Cathy Cooper "Dysgodd y Coleg Celf i mi sut i amgyffred, i ddylunio, i arlunio, i fynegi, ond dysgodd Casnewydd i mi sut mae byw"

Mentro Ymlaen

Rhoddodd y Coleg Celf bad lansio, y fam-long werdd i ni, lle'r oeddem yn mentro allan ohoni i gyfeiriadau lu er mwyn cael blas o'r byd go iawn.

Rydym yn genhedlaeth y dysgwyd y sgiliau traddodiadol i ni yn greadigol, mewn byd a oedd yn un analog tu hwnt. Dysgodd ein tiwtoriaid ni sut i fod yn ddylunwyr, crochenwyr, gwneuthurwyr ffilmiau, peintwyr, cerflunwyr ac yna rydym wedi mynd allan i'r byd fel unigolion unigryw sydd angen bod yn ddychmygus, sgilgar, yn ymchwilwyr da, yn chwaraewyr tîm ac yn feddylwyr annibynnol.

Roedd Willie Stewart a'i dîm gyrfaoedd yn wych yn ein helpu i'n rhoi ar ben ffordd.

Rydym wedi mynd â hynny allan i'r byd ac wedi byw ein bywydau dan arweiniad y blynyddoedd ffurfiannol hynny yng Nghasnewydd.

Y Diwydiannau Creadigol:

Mae'n bell o fod yn hawdd ennill bywoliaeth drwy weithio'n greadigol ac mae rhinweddau creadigrwydd, dycnwch, sensitifrwydd a gwerthfawrogiad yn ogystal â gwydnwch ac ystyfnigrwydd ysbryd oll yn angenrheidiol iawn. Y parodrwyd i lynu wrthi a dod o hyd i ffyrdd o roi ein meddyliau creadigol a'n talentau ar waith. Rydym wedi gorfod addasu ac ail-ddysgu, newid cyfeiriad a throsglwyddo ein sgiliau i bob math o feysydd eraill a ffyrdd o oroesi.

I'r Wythdegau trwy gyfnod yr Yuppies a Thu Hwnt!

Rhoes ein degawdau cyntaf ar ôl y Coleg inni 'r hyn a oedd yn llwybr dysgu serth iawn ac roedd symud o analog i ddigidol yn arbennig, yn her fawr wrth i ni symud ymlaen tuag at ein 30au a'n 40au.

Mae pob un ohonom wedi gorfod dod i delerau â'r oes ddigidol sydd, yn eironig, wedi caniatáu i bawb ddod yn ddylunydd, arlunydd, ac yn ffotograffydd DIY - gyda'r effaith ddilynol ar fywoliaeth rhai!

Yn ei gyd-destun, rhoddodd y 1980au inni 'r Pac-man, M.T.V., Back To The Future, Chernobyl, chwalu mur Berlin, Spandex a dyfeisio'r we fyd-eang.

Gwelodd y 1990au y we yn arwyddocaol iawn yn cael ei chyhoeddi, yn ogystal â dyfodiad Google a'r iMac,

eBay, Gameboy, rhyddhau Nelson Mandela, rhoddodd chwyddiant inni, Rhyfel y Gwlff, ymddiswyddodd Margaret Thatcher a llofnodwyd Cytundeb Dydd Gwener y Groglith. Dyma oedd oes Boris Yeltsin a Bill Clinton, yr Undeb Ewropeaidd, yr Ewro, twnnel y sianel a llawer, llawer mwy!

Yr oeddem yn ein deugeiniau cynnar erbyn y flwyddyn 2000 a oedd, wrth edrych yn ôl tros gyfnod y Mileniwm, ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn!

‘Y Genhedlaeth Frechdan’

Yr ydym yn awr yn ein chwedegau cynnar ac yn brysurach nag y buom erioed. Mae’n amlwg bod nifer ohonom wedi bod, ac mewn llawer o achosion, yn dal i fod o hyd, yn gofalu am ein perthnasau hŷn a hefyd y rhai sy’n iau na ni, gyda bod yn neiniau a theidiau yn rôl newydd a hyfryd i rai.

Dywedodd Picasso mai “ystyr bywyd yw dod o hyd i’ch rhodd, ond mai pwrpas bywyd yw ei roi i eraill”. Wrth i amser symud ymlaen, rydym wedi defnyddio’n dyfeisgarwch wrth ddod o hyd i ffyrdd o roi ein meddyliau creadigol a’n talentau ar waith ac mae hyn wedi cynnwys trosglwyddo ein sgiliau, ein gwybodaeth a’r gred yn yr hyn a wnawn, i eraill. Mae edau euraidd dylanwad wedi ein gweld yn ei dderbyn gydag un llaw ac yn ei drosglwyddo i’r genhedlaeth nesaf gyda’r llall. Credaf ein bod ni, rhyngom ni, wedi trosglwyddo’r nodweddion a wreiddiodd Casnewydd ynom i filoedd o bobl eraill, ac mae’n bwysig gallu dod â’r cyfan yn ôl adref hefyd, i’r fan lle dechreuon ni yng Nghasnewydd, ac rwy’n mawr obeithio y bydd pobl Casnewydd yn enwedig y bobl ifanc, yn cael cipolwg ac ysbrydoliaeth o’r hyn y byddant yn ei weld a’i ddarllen yn yr arddangosfa hon.

Cyfyngau Cymdeithasol

grŵp o bobl a fagwyd gyda set ddiwifr fawr yn yr ystafell fyw a blwch ffôn ym mhen draw’r ffordd, y rhyngwrwyd a’r cyfyngau cymdeithasol, a’n cofleidio a’n defnydd ohono, sydd wedi ein tynnu’n ôl i gysylltiad â’n gilydd ac wedi galluogi’r prosiect hwn i gael ei wireddu ac i ddod â’r arddangosfa hon i chi. Mae’n adlewyrchu ein defnydd o dechnoleg newydd a’r byd digidol a’n hymgylltiad â nhw. Wrth ysgrifennu’r pwt hwn rwy’n gobeithio y gall yr

arddangosfa ei hun hefyd gael ei chefnogi gan safle gwe a fydd yn fan cyfeirio mwy hirhoedlog y gellir ychwanegu ati a’i defnyddio fel adnodd addysgol nawr, ac yn y dyfodol.

Yr Arddangosfa

Roedd y syniad cychwynnol a gefais yn seiliedig ar sut y mae profiad mewn ysgol gelf yn cyfoethogi bywydau mewn cynifer o ffyrdd ac y dylem geisio nodi bod 40 o flynyddoedd wedi pasio ers i Derek Butler gomisiynu poster ffoto-bwth gwych Glenn Marshall yn hysbysebu ein sioe raddio yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd yn 1980.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn o’r cyfle i allu cynnal y sioe hon yng Nghasnewydd a hoffwn ddiolch i Gyngor Casnewydd ac yn arbennig i Mike Lewis, Barbara Bartl, Oliver Blackmore, Siân Iles a Kevin Barry am eu holl waith ar y prosiect hwn.

Roeddwn am i hwn fod yn brosiect mor gynhwysol â phosibl ac yn greiddiol iddo mae casgliad o unigolion sy’n ymddangos ar y poster gwreiddiol hwnnw. Mae’n ddewis goddrychol a phersonol i mi o’r bobl a oedd am gymryd rhan ac sydd wedi cofleidio’r syniad yn dwymgalon.

Roedd yn bwysig i mi hefyd allu cynnwys gwaith rhai o’n tiwtoriaid, a fydd yn rhoi syniad clir iawn i chi o amrywiaeth ac ansawdd ein haddysgwyr, y bobl hynny sydd wedi bod yn rhan arbennig iawn o’n bywydau.

Mae’n sicr yn drawstoriad amrywiol ac yn grynhoed gwych o unigolion.

Gobeithio y bydd yr arddangosiad o’u gwaith presennol a’u bywgraffiadau yn rhoi cipolwg difyr dros ben i chi ar sut y mae addysg gelf yng Nghasnewydd wedi dylanwadu ar ein bywydau a’n cyfoethogi.

Efallai yr hoffech edrych yn ddyfnach ac archwilio gwaith yr unigolion eich hunain.

Diolch Casnewydd ac ymlaen i’r 40 mlynedd nesaf!

Neil Carroll

Nodyn gan Dr Peter Wakelin

Mae cymaint o ‘Newports’ yng ngwledydd Prydain fel bod rhaid ichi fod yn glir bob amser pa un yr ydych yn cyfeirio ato - nid un swydd Amwythig, nid Trefdraeth sir Benfro, nid ar Ynys Wyth, nid ‘Pagnell’, ond yr un a arferai fod yn sir Fynwy, yna Gwent a nawr (fel Efrog Newydd, mor fawreddog fel y bu’n rhaid ei enwi ddwywaith) yn Gasnewydd, Casnewydd. Ac eto, er gwaethaf y lluosogrwydd hwn, hyd y gwn i, dim ond un Casnewydd oedd ag ysgol gelf, ac roedd mor hysbys fel na fyddai’n rhaid i chi ddweud pa Gasnewydd os oeddech yn siarad am yr ysgol gelf. Cefais fy magu ar aelwyd gelfyddydol yr holl ffordd draw yn Abertawe yn y 1960au a’r 1970au a Chasnewydd, Hurn, Rathmell, Wright, Zobole ac eraill yn enwau gweddol gyfarwydd. Ar ben hynny, ni allai neb a ymwelodd erioed â’r gromen werdd fawr yn Clarence Place fyth anghofio’r lle. I’r rhai nad oedd yn ei adnabod neu’r bobl a’i gwnaeth yn sefydliad mor anhygoel, mae’r prosiect hwn yn cadw’r cof yn fyw.

Dr Peter Wakelin



Simon Barber

1977-1980: BA Dylunio Graffig, Coleg Celf Casnewydd, Gwent, De Cymru

Roedd fy nhair blynedd yng Nghasnewydd yn ddigon i newid bywyd. Dysgodd y cwrs Dylunio Cyhoeddusrwydd yr holl reolau dylunio a teipograffeg y mae angen i chi eu deall cyn y gallwch ddechrau eu torri nhw, rhywbeth nad oeddwn i'n ei sylweddoli ar y pryd. Ond y diwylliant cerddoriaeth a oedd yn digwydd y tu allan i furiau'r coleg a oedd yn fy nghyffroi'n bennaf, fe wariais grant fy ail flwyddyn ar offer drymiau a chwarae i'r band coleg The Wait a'r band o Bontypridd, Blaue Reiter, gyda'm cyd-fyfyrwyr a chyd-letywyr yn Constance Street, Claire Sinnott a Bari Goddard ar flaen y llwyfan.

1980-1985: Cynorthwy-ydd nyrsio, Ysbyty Coldharbour, Sherborne, Dorset

Cyrrhaeddodd cyflogaeth lawn amser fel swydd dros yr haf a phara pum mlynedd. Yn dal i fod ag obsesiwn gyda cherddoriaeth roeddwn yn chwarae mewn sawl band (The Act, Scarlet Downs a'r Chesterfields), yn trefnu gigs, a rhoi ffansin 'Feeding the Fish' ynghyd gyda'm cyfaill Alan Fflint.

1984-1990: Cyfansoddwr Caneuon a Cherddor, The Chesterfields

1985-1986: Dylunydd Graffeg, Photobanc Limited

1985-1990: Dylunydd Graffeg, The Terrible Hildas

1987-1992: Hyrwyddwr Cerddoriaeth, The Electric Broom Cupboard, Sherborne a Yeovil

Mae'r Chesterfields yn llofnodi yn 1986 i label Subway Organisation ym Mryste ac, yn dilyn rhyddhau

ein EP 'A Guitar in Your Bath', cawsom ein cofleidio gan Janice Long a John Peel, Radio 1, gan arwain at bedair blynedd pleserus iawn o recordio a gigs ar hyd a lled y DG ac Ewrop, gyda'n halbwm 'Kettle' yn cyrraedd Rhif 2 yn Siart Indie Gwledydd Prydain. Ynghyd â hyn, daeth fy mhartner Amanda Wallwork a minnau'n 'The Terrible Hildas', gan gynhyrchu gwaith celf ar gyfer cloriau recordiau, poster i a nwyddau ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth annibynnol. Roeddwn hefyd yn rhedeg clwb cerddoriaeth pythefnosol o'r enw'r Electric Broom Cupboard, gan ddod â bandiau o bob cwr o'r wlad i Sherborne a Yeovil.

1990-1998: Dylunydd Graffeg llawrydd, Foothold Design

1998-2000: Dylunydd Graffeg, Ragged Bears Publishing, Milborne Wick, Gwlad yr Haf

Yn dilyn tranc y Chesterfields, sefydlodd Amanda a finnau Foothold i gynhyrchu dylunio graffeg ar gyfer busnesau creadigol ac unigolion, gan gynnwys y Craft Galleries Guide, Vinyl Japan Records, Somerset Arts Week, Dorset Arts Week, Glastonbury Dance Festival, a PJ Harvey. Daeth gwaith rheolaidd ar gyfer Ragged Bears Publishing â'r cynnig o gyflogaeth lawn-amser a'r cyfle i weld a allai hynny fod yn addas i mi. Doedd e ddim.

1968 - Heddiw Golygydd a dylunydd, cylchgrawn Evolver

2000 - hyd heddiw Dylunydd graffig llawrydd

2007-2008: Swyddog Marchnata, Canolfan Gelfyddydau Dorchester, Dorchester, Swydd Dorset

2007. Swyddog Marchnata, Gŵyl Dorchester

Bellach yn agosáu at ei 20fed flwyddyn, Evolver yw canllaw celfyddydau a diwylliant am ddim rhanbarth Wessex.

Caiff ei gyhoeddi bob deufis, ac mae'n cynnwys rhestrau a nodweddion sy'n hyrwyddo celfyddydau gweledol a digwyddiadau perfformio yng Ngwlad yr Haf, Dorset, Dyfnaint, Wiltshire, Bryste a Chaerfaddon. Mae'n dwyn ynghyd yr holl bethau rwy'n eu caru - dylunio graffeg, celf a cherddoriaeth. Rwy'n parhau i ymgymryd â phrosiectau dylunio a marchnata eraill, ac yn cynllunio llyfrynau ar gyfer dau brif ddigwyddiad celfyddydol y rhanbarth, Wythnosau Celf Dorset ac Wythnosau Celf Gwlad yr Haf.

Was ist Kunst? Beth yw Celfyddyd?

Graham Bebbington

Fe welais i hwn gyntaf ar boster wrth ffawdheglu yn yr Almaen ac mae'n ymddangos yn briodol 40+ o flynyddoedd yn ddiweddarach wrth feddwl am Goleg Celf Casnewydd a'i ddylanwad ar fy mywyd. Yn yr achos hwnnw roedd yn arddangosfa o Gelf Fodern yn Hamburg. Yn fy achos i mae wedi bod yn oes o geisio dod o hyd i'r ateb.

Rhoddodd Casnewydd y gofod i mi archwilio byd newydd o wahanol fathau o gelfyddyd ar fy Nghwrs Dylunio Graffeg. Dangosodd y Coleg ffyrdd gwahanol i mi o weld drwy arlunio, paentio, ffotograffiaeth, caligraffi, teipograffeg ac, yn bwysicach i mi, y ddelwedd symudol. Roeddwn wedi darganfod nad oedd canolbwyntio ar un ddelwedd a symud teip ychydig i'r chwith neu i'r dde yn fy llenwi â gorfoledd. Yr oedd fy mryd i ar symud pethau o gwmpas yn null swrrealidd fy arwr ar y pryd Terry Gilliam yn y gobaith y gallwn animeiddio un diwrnod yn null y Road Runner, Scooby Doo neu Baloo. Rhoddodd tiwtoriaid ardderchog a grŵp o ffrindiau/myfyrwyr creadigol a chefnogol iawn yn ystod y 3 blynedd yno, yr angerdd, y chwilfrydedd a'r dyfalbarhad i mi ddilyn fy mreuddwyd.

Ar ôl gadael Casnewydd, arwyddais ar y dŵl gartref yn swydd Gaer rhwng nifer o swyddi rhan-amser a chysgu ar lorïau ffrindiau yn Llundain wrth guro ar wahanol ddrysau stiwdios tan bron i flwyddyn i'r diwrnod wedi gadael Casnewydd ces swydd yn cynorthwyo gydag animeiddio Meddygol. Oddi yno symudais rhwng gwahanol stiwdios fel artist llawrydd yn dysgu am y gwahanol feysydd o animeiddio a lle y darganfŵm Effeithiau Arbennig a syrthio mewn cariad yn syth â byd haniaethol tân, dŵr, eira, cysgodion ac ati. Deuthum yn adnabyddus am fod yn fedrus yn y maes a chefais yrfa helaeth ac amrywiol o 30+ o flynyddoedd o ganlyniad.



Graham
Bebbington

Dyma rai o'r uchafbwyntiau isod:

Arbenigwr FX ar y '**Snowman**' ar gyfer TVC ar gyfer Channel 4.

Arbenigwr FX ar y gyfres o'r 80au '**SuperTed**' yng Nghaerdydd.

Arbenigwr FX ar '**When the Wind Blows**' ar gyfer TVC ar gyfer Channel 4.

FX animeiddiwr '**balto**' i amblimation (Dreamworks bellach).

Goruchwyliwr FX ar '**Space Jam**' yn Llundain (Premier Films ar gyfer Warner Brothers).

Animeiddiwr FX ar '**The Thief and the Cobbler**' ar gyfer Richard Williams Animation.

Animeiddiwr cyffredinol ar '**Fantasia 2000**' ar gyfer Walt Disney, Los Angeles.

Animeiddiwr FX ar '**Jungle Book 2**' Tandem Films ar gyfer Walt Disney, Llundain.

Animeiddiwr FX ar y dilyniant teitl ar gyfer '**Thunderbirds**' ar gyfer Nexus Productions.

Animeiddiwr ar y '**Snowman and the Snowdog**' ar gyfer Lupus Films ar gyfer Channel 4.

Yn ychwanegol at hyn mae llawer o hysbysebion, 'promos' pop a dilyniannau teitl yn ystod fy amser yn y ganolfan greadigol fel ag yr oedd Llundain yn yr 80au a'r 90au. Nid wyf yn animeiddiwr proffesiynol llawn amser mwyach, ond byddaf bob amser yn llawn angerdd drosto a chelfyddyd ym mhob ffurf, diolch i'r hadau cynnar a blannwyd yng Ngholeg Casnewydd. Newport College



Brett Breckon



Brett Breckon

1958 - Ar Ddydd Llun ym mis Mawrth mae'r antur yn dechrau, ac rwy'n cael fy ngeni

1964 (neu oddeutu hynny) - cof celf cynharaf pan dynnais ffigurau yn fwy manwl na rhai fy ffrindiau dosbarth a chofiaf i'r athro fy nghanmol i - fy adolygiad cyntaf.

1969-71 - blynyddoedd cynnar yn yr ysgol fawr. Symudodd fy nheulu dŷ ychydig o weithiau mewn cyfnod byr felly erbyn diwedd fy ail flwyddyn roeddwn ar fy nhrydedd ysgol ramadeg, ond yn y dair roeddwn wedi dod o hyd i noddfa yn yr ystafell gelf.

1972 - cyrhaeddodd athro celf ifanc newydd, Keith Richmond, ac ysbrydolodd ef mi a'm hannog i weithio a'm gwneud yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r posibilrwydd o wneud gyrfa ym myd celf. Parhaodd i f'addysgu a'm tywys i i'r chweched dosbarth a'r Lefelau-A sy'n arwain at...

1976 - Ysgol Gelf Amwythig, blwyddyn sylfaen. Ymddangosai yn heulog yno gydol y flwyddyn ac agorwyd fy llygaid ymhellach yno gan ryfeddodau'r byd celf, a'r bobl wych sy'n rhan ohono.

1977 - Casnewydd. Pa mor gyflym aeth y blynyddoedd, ac mor bwysig oeddent. Cefais greu portffolio darluniau tra ar y cwrs dylunio graffeg, a hyn oherwydd fy nymuniad i fynd ar drywydd aer-frwsio fel fy mhrif ddull o greu delweddau, na fyddai wedi bod yn bosibl ar y cwrs darlunio ei hun. Fodd bynnag, fel gyda phawb ar bob cwrs o fewn y coleg, byddai dylanwadau, arweiniad, hyfforddiant a help yn llifo rhwng adrannau a chan yr holl diwtoriaid. Roedd hi'n dair blynedd wych.

1980 - cymerais fy mhortffolio aer-frwsio allan i fyd y darlunydd llawrydd. Arhosais yng Nghasnewydd a gweithio'n bennaf ar gyfer asiantaethau dylunio a hysbysebu yn ne Cymru, Bryste a thu hwnt, gyda rhai comisiynau hefyd yn dod gan gyhoeddwy'r o Gymru a Llundain.

1980au - Mae aer-frwsio yn peidio â bod yn gyfrwng poblogaidd, yn eironig tua'r un amser yn union ag yr ysgrifennais y llyfr 'A Guide to Airbrushing and Photo-Retouching'. Ac felly fe wnes i droi at ddulliau paent mwy traddodiadol.

1990au - Newid nodedig yn fy sylfaen o gleientiaid gyda llai o'r byd hysbysebu a mwy o fyd cyhoeddi, llawer ohono yng Nghymru. Daeth y ddegawd â theulu i mi a symudiad i Sir Benfro hefyd.

2000au - Cafodd fy lleoliad ger y glannau ddylanwad mawr ar fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn fel y gwnaeth fy nau fab wrth iddynt dyfu i fyny o'm cwmipas yn gweithio o gartref. Roeddwn yn hapus i fod yn cynhyrchu gwaith ar gyfer cyhoeddwy'r llyfrau a oedd o ddiddordeb a pherthnasedd i'm bechgyn, yn arbennig ar themâu hanesyddol, chwedlonol a ffantasi.

Gwaith Unigol - Dechreuais gynhyrchu mwy o'm gwaith fy hun yn hytrach na gwaith a gomisiynwyd yn ystod y cyfnod hwn

Arddulliau - Roedd fy ngyrfa hir a'r angen i addasu er mwyn goroesi wedi fy ngadael gyda thri arddull unigryw o weithio - paent, crafu, ac, yn anochel, steil digidol - Rwy'n dal i wneud synnwyr o'r amrywiaeth yma ond yn mwynhau gweithio ym mhob disgyblaeth yn fawr iawn.

Pynciau - Rwyf wedi dychwelyd i rai o themâu a thestunau mecanyddol blynyddoedd fy aer-frwsio ar gyfer gwaith hunan-gymhellol yn ddiweddar, ond hefyd mae angylion, tylwyth teg a dreigiau i'w gweld rif y gwlith yn fy myd o greu delweddau.

40 oed - Dyma brentisiaeth barhaus, a thaith gyda fy ngwraig hyfryd Lucy. Rwy'n dal i ddysgu rhywbeth newydd gyda phob delwedd yr wyf yn ei gwneud, a gyda phob delwedd rwy'n ceisio gwneud llai o gamgymeriadau ac anelu at gwblhau, os nad perffeithrwydd.



Elizabeth Buck. BA (Anrh.) ATC.

Credaf ers yn blentyn bach, fod gennyf ddychymyg enfawr a lliwgar, ond cymerodd hi fy Athro Celf i fy ysbyrdoli i wneud cais am Gwrs Sylfaen. Felly y dechreuodd, yn 17 oed. I Gaerfyrddin, am Gwrs Sylfaen blwyddyn, ac yna fe wnes i gwblhau fy ngradd yng Nghasnewydd yn 1980. Cefais fy nerbyn ar wedyn gwrs TAR yng Nghaerdydd. Ro'n i wrth fy modd.

Symudais i Portsmouth, a gweithiais i Ganolfan Gelfyddydau leol gan greu gwaith dylunio. Gweithio fel Swyddog Arddangosfa gyda Chyngor y Ddinas, gan greu Arddangosfa Deithiol ar fws unllawr, gan ymweld ag ysgolion yn yr ardal leol.

Roedd fy swydd addysgu celf gyntaf yn Ysgol Ramadeg Portsmouth, a oedd yn amgylchedd mor ysbrydoledig a chreadigol. Dysgais Gelf TGAU a Lefel A, yn ogystal â phob grŵp blwyddyn. Roeddwn i wrth fy modd yn cael bod yn rhan o ddylunio ac adeiladu setiau llwyfan hefyd.

Ar ôl genedigaelth fy mab cyntaf, gweithiais fel Athro Cyflenwi yn Hampshire, cyn dychwelyd i Sir Benfro. Roeddem i gyd yn byw mewn bwthyn hynafol bendigedig ger y môr, erw o dir i dyfu bwyd, nant, ysguboriau, perllan, coed i ddringo, ychydig o funudau o gerdded i'r môr. Pentref bach o'r enw Lake, cymuned fywiog a charedig i'm pedwar o blant i gael eu magu ynddi. Gofod i dyfu.

Cymerais swydd yn ein coleg lleol, gan addysgu Gwaith Celf Lefel A ac NVQ, yna dychwelais i wneud amrywiaeth o waith cyflenwi yn Sir Benfro. Wrth i fywyd ymagor a'r angen am ofal ysbyty parhaus ar fy mhedwerydd plentyn, gweithiais le y gallwn, fel glanhawr a pheth gwaith swyddfa.

Dychwelais i weithio yn y byd Addysg, gan ddechrau addysgu EFL gydag oedolion, ac yna fel Athro Cyflenwi a Chynorthwydd Cymorth Dysgu ger Penfro. Gwych cael bod yn ôl yn gweithio gyda syniadau ifanc a dychymyg enfawr. Yn ddiweddarach derbyniais swydd debyg mewn Ysgol Gynradd wledig, yn mwynhau gwaith anghenion arbennig, addysgu Athroniaeth, a chreu prosiectau Celf

arbenigol. Ar yr adeg hon, enillais dystysgrif allanol mewn Cwnsela a chefais gymorth i gynnal gweithdai mewn Cyfryngau Cymysg a Thecstilau, trobwynt anferth yn fy Ngwaith Celf Personol.

Teithiais gyda grŵp o addysgwyr i Ecuador, De America. I Quito, ac i Fforest Law Wreiddiol. Profiad enfawr ac unigryw, a oedd yn cynnig cyfleoedd enfawr i weithio gydag ysgolion.

Fe wnes i gynllun digymell a newid fy mywyd. Roedd fy mhlant wedi symud i'r Brifysgol a thu hwnt. Gadewais fy swydd, rhoddais fy mwthyn hudolus ar werth, fe wnes i weithio mewn Castell lleol dros yr haf, gan adael i deithio. Hong Kong ac Awstralia oedd y pellaf. Profiadau cyfoethog. Clywais i fy nhŷ gael ei werthu pan yn Sydney. Pan ddois yn ôl, dim tŷ, dim job.

Ar fy ail niwrnod yn ôl yn Sir Benfro roeddwn wedi dewis tŷ 'newydd', a chefais gynnig swydd mewn Gwesty hardd ger y môr. Rydw i wedi bod yn byw yn fy 'Mhalas' ac yn gweithio yn y Gwesty dros y blynedd diwethaf. Creu llyfrynau, cardiau ac ati, a Murlun Euraid Mawr yn eu hardal fwyta newydd.

Y llynedd, roeddwn yn ffodus i gael arddangosfa unigol yn yr un ystafell â fy Murlun. Yn llwyddiant ysgubol, cefais fy llethu gan y gefnogaeth a gefais. Gwerthais lawer o weithiau gwreiddiol a phrintiadau argraffad cyfyngedig. Rwy'n cynllunio ail arddangosfa ym mis Medi 2020. Rwy'n parhau i weithio yn fy stiwdio fy hun, ac yn ddiweddar rwyf wedi bod yn cynnal gweithdai argraffu mono mewn gwyliau lleol a chydau grwpiau bach. Rwy'n caru archwilio cymaint o brosesau creadigol newydd.



Neil Carroll

Roedd hyd yn oed y syniad o fynd i goleg celf yn y lle cyntaf yn freuddwyd lwyr ac rwy'n teimlo mor lwcus o fod wedi cael y cyfle hwnnw ac mor ddiolchgar i fy athro celf ysgol Owen Parfitt ac i fy rhieni am eu hanogaeth. Rwy'n un o dri o blant ac maent wedi gweithio mor galed i'n cefnogi ni.

Teithiais ar y bws cynnar gyda'r prentisiaid glo, roeddent yn eistedd mewn rhes ar y sedd ochr fawr gyda'u hesgidiau pwll a'u fflagiau a mi gyferbyn â nhw mewn DAPS arian a llyfrau braslunio. Cyferbyniad llwyr o ran cod gwisg a llwybrau er bod cwlwm da rhyngom. Roedd gennym ddiddordeb gwirioneddol yn yr hyn yr oedd y nail a'r llall yn ei wneud, wedi'i gryfhau ar y pryd gan gorff gwaith rhyfeddol Jack Crabtree ar lowyr.

Dysgodd Coleg Celf Casnewydd, ei diwtoriaid hudolus a fy nghyd-fyfyrwyr gwyh lawer o bethau i mi rhwng 18 a 22 oed. Cyfoedion yn tyfu ac yn mynd yn eu blaenau gyda'i gilydd, gan rannu sgiliau, gwybodaeth a diddordebau. Fy mhwnc yn aml fyddai fy nhiriogaeth gartref ac roedd fy ffrindiau yn ôl gartref yn cadw fy nhraed ar y ddaear.

Doedd gadael coleg yn 1980 ddim yn hawdd, roedd dirwasgiad bryd hynny ac roedd bod â'r gallu i addasu, bod yn hyblyg ac ail-ddysgu yn hanfodol er mwyn goroesi. Roedd Willie Stewart a'i dîm Gyrfaedd yn wych am ddarparu cefnogaeth yno a llwyddodd fy ffrind Brett Breckon i ysgwyd ychydig o lwch hud drwy fy nghyflwyno

i Yvonne, rhywun a drawsnewidiodd fy mywyd yn syth ac sydd wedi parhau i fod yn ddylanwad anhygoel o gadarnhaol 40 mlynedd wedi hynny.

Roeddem yn gyrru ymlaen yn wych ac fe ymgartrefon ni yng Nghaerdydd, gan briodi a dechrau teulu gyda'n mab cyntaf David yn cael ei eni ar ddechrau'r 1980au, dechreuad yr hyn a fu'n berthynas brydferth. Fe wnes i gwblhau cwrs hyfforddi athrawon a chefais gynnig swydd yn dysgu Celf yn Rhosan-ar-Wy ym 1985.

Yno fe ddechreuon ni ar fywyd newydd gyda'n ail fab Jack yn ychwanegiad i'n teulu ymhlith perllannau, buarthau hopys a meindyrau serth swydd Henffordd.

Roedd fy ngyrfa fel athro yn Rhosan-ar-Wy ymysg cydweithwyr a myfyrwyr hyfryd ac roedd yn brofiad cyfoethog a buddiol iawn. Cafwyd llawer o gyfleoedd i gyflawni prosiectau yn y gymuned ac i fynd ar deithiau i arddangosfeydd mawr. Mwynheais fod yn beintiwr yn yr ystafell ddosbarth ac mae nifer o'm cyn-ddisgyblion wedi mynd ymlaen i gael gyrfaedd mewn Celf a Dylunio ac rwy'n falch iawn o hynny.

Mae'r ddau fab hefyd yn gweithio fel dylunwyr ac rydym yn falch iawn ohonynt.

Cafodd David a'i bartner Rachel fab, Dylan, yn 2017 ac felly rydym yn falch iawn o fod yn fam-gu a thad-cu hefyd.

Mae Yvonne wastad wedi fy annog i barhau â'm gwaith fy hun a mwynheais wneud hynny, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf. Bûm yn ddigon ffodus i gael arddangosfeydd o'm paentiadau hefyd gydag arddangosfa unigol fawr 'The Spirit Fired' yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd yn 2004, ac arddangosfa deithiol hefyd 'Here Comes the Sun' a fu hefyd yn cynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ryng-Geltaidd yn Llydaw yn 2010.

Mae Yvonne yn wneuthurwr printiadau medrus ac wrth ddychwelyd i'r Cymoedd, rydym wedi cael arddangosfeydd gyda'n gilydd 'Kindred Spirit' ym Mharc Treftadaeth y Rhondda yn 2015 a 'Trouvaille' yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa yn 2019.

Mae'r project '40 mlynedd yn ddiweddarach' hwn wedi fy nghadw'n brysur iawn ac yn dod â ni i'r dwthwn hwn heddiw yn 2020.

“Wel, sutwnesi gyrraedd yma?”

Pennau'n Siarad



Julian Cole

Julian Cole

Y Ffeithiau Moel

Mai 1980

Dyfarnwyd BA (Anrh) Dylunio
Cyhoeddusrwydd -Coleg Celf a
Dylunio Casnewydd

Awst 1980 - 1981

Dylunydd Graffeg Iau -
RPA, Havant

1981 - 1983 -

Dylunydd
Graffeg mewnol -
Ymgynghorwyr Pensiynau
MPA - Chichester

1983 - 1986 -

Pennaeth y
stiwidio ddylunio, yna Pennaeth
yr adran gyhoeddusrwydd - Colt
International - Havant

1986 - 2018 -

Lansio JJC
Design, fy mhractis dylunio fy
hun -Exeter

2018 - Gwerthu cyfran busnes ac
ymddeoliad - Poitou Charante -
Ffrainc

Gwersi Llesol?

Edrychwch ar bethau hyd nes y byddwch
chi wir yn eu gweld. Edrych o dan gwfl
y car bob tro. Mae sylwedd lawer mwy
pwysig nag arddull. Llawer o wybodaeth
dechnegol, a lywiodd ac a oedd yn sail i
bob techneg yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i chi wastad ddechrau ar y
gwaelod ond dyw e ddim yn para
am byth. Nid yw'r byd masnachol go iawn
yn ddim byd tebyg i goleg.

Dwi'n casáu Letraset! Roedd angen
rhywun i ddyfeisio cyfrifiadur a allai drin
y teipograffeg a thrin y delweddau.

Mae hyfforddiant amlddisgyblaethol
gwirioneddol (fel yr un a gafwyd yng
Nghasnewydd) yn amhrisiadwy.

Yn amlwg mae rhedeg busnes am dros 30
mlynedd wedi dysgu llawer i mi: Peidiwch
byth â gadael i gwsmer gymryd ei luniau ei
hun na bod ynddynt; dylech wastad wirio
popeth o leiaf ddwywaith; peidiwch byth â
chredu unrhyw beth y mae argraffydd yn
ei ddweud wrthoch chi. Dysgu hefyd sut
i ddefnyddio cyfrifiadur yr oedd rhywun
wedi'i ddyfeisio erbyn yr amser hwn.

Mae addysgu triciau newydd i hen gi yn
wastraff amser. Gwell eu gadael i'r cŵn
ifanc. Fyddan nhw ddim yn gofyn am
gyngor; maen nhw'n gwybod y cyfan -
yn union fel yr oeddem ni.

Difaru?

Hoffwn fod wedi aros yn
hirach a threulio llai o amser
yn y dafarn - Oh a heb ymuno
â'r Gymdeithas Hop Squash.

Dylwn fod wedi aros am
flwyddyn arall, dysgu mwy a
pheidio â symud am yr arian
yn unig.

Nid yw cyflog da na chwrt
sboncen ar y safle yn
iawndal am waith diflas.

Dim o gwbl - swydd dda,
cyflog da ac adeiladwr
profiad gwyh ar draws yr
holl ddisgyblaethau graffeg.

Heb gyflogi pobl ifanc
â sgiliau cyfryngau
cymdeithasol uwch yn gynt.

Dylwn fod wedi ymddeol
yn gynt

“Nid yw hyn yn ddim byd newydd, ond nid yw'n ddim byd”

Waifs

Cathy Cooper



Cathy Cooper

Gadewais Goleg Celf Casnewydd yn 1972 gyda Diploma mewn Ffasiwn a Thecstilau, ond arweiniwyd fi gan amgylchiadau at yrfa hir ym myd darlledu, yn gyntaf gyda London Weekend Television yn 1977 yna ar sioe frecwest newydd GMTV yn 1993, lle y dechreuais a rhedeg yr Adran Gerddoriaeth.

Roedd cyfnod byr gyda phrosesau'r ystafell dywyll tra yng Nghasnewydd yn 1969 wedi fy ysbrydoli i gymryd dosbarthiadau nos mewn ffotograffiaeth ddeng mlynedd yn ddiweddarach pan yn byw yn Llundain. Datblygodd fy niddordeb dros y blynyddoedd ac fe wnes i addasu'n gyflym o ffilm i ddigidol.

Yn 1999, ymwelais â'r Antartctig ar fordaith antur ac fe daniodd hyn ynof ddiddordeb gydol oes yn ardaloedd y Pegynau. Ym 2007 fe'm hetholwyd i wasanaethu ar Bwyllgor Cyfeillion Sefydliad Ymchwil Pegynol Scott fel Cydlynnydd Her. Cefais fy recriwtio a chymryd rhan mewn sialensiau codi arian drwy slejo â chŵn Arctig, a hefyd drwy roi sgysiau a chyflwyniadau ar fy ffotograffau.

Tra'n gweithio'n llawn amser, dechreuais deithio yn rheolaidd gyda newyddiadurwr ac yn 2008 cyhoeddwyd fy lluniau cyntaf gan y Mail on Sunday. Ers hynny rwyf wedi bod yn gyfrannwr rheolaidd i'w hadran deithio.

Arweiniodd fy ymwneud â nifer o brosiectau amgylcheddol a hanesyddol, at archif ffotograffig unigryw ac arwyddocaol o ymgyrch deng mlynedd lwyddiannus yn 2006 i achub Gwaith Trydan o Ddiwedd Oes Fictoria yn Twickenham. Derbyniodd hwn sylw yn y wasg leol a chenedlaethol gan gynnwys tudalen flaen gwefan y BBC.

Yn 2011, ymddeolais o GMTV a mynd yn ôl i'r coleg i astudio ffotograffiaeth am ddwy flynedd, gan ennill Rhagoriaethau. Wrth ymchwilio i brosiectau ar gyfer fy

nghwrs, darganfyddais y syrca. Daeth tynnu lluniau ohono yn obsesiwn sy'n parhau heddiw ac mae wedi arwain at gael dwy brif arddangosfa yn Zippos Circus Big Top yn 2018 a 2019.

Ers 2013, rwyf wedi bod yn gyfrannwr cyson yn Oriel Orleans House, Twickenham ac mae un o'm lluniau yng Nghasgliad Bwrdeistref Richmond. Rwyf wedi ennill gwobrau mewn cystadlaethau pwysig gan gynnwys Ffotograffydd Gerddi Rhyngwladol y Flwyddyn 2016 a 2017 ac arddangosais yng Ngerddi Botaneg Brenhinol Kew a Gŵyl Ffotograffiaeth Rhydychen yn 2014.

Mae fy ngwaith wedi cael ei gyhoeddi'n helaeth mewn cylchgronau, llyfrau ac ar wefannau. Defnyddiwyd llun a gymerais yn 1973 o Joe Strummer mewn parti myfyrwyr yng Nghasnewydd yng nghyfrol boblogaidd Allan Jones 'Can't Stand up for Falling Down' yn 2017 (Roedd Allan hefyd yn gyn-fyfyriwr yng Nghasnewydd).

Yn 2019 cefais fy arddangosfa ffotograffiaeth adolygol gyntaf – Bywyd Drwy Lens: 60 Mlynedd gyda fy Nghamerâu – yn Oriel Stablau'r Orleans House, Twickenham. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys lluniau yr oeddwn wedi'u datblygu a'u hargraffu yn fy nyddiau yng Nghasnewydd.

Yn ystod yr un flwyddyn, derbyniwyd dwy o'm delweddau syrca ar gyfer y Discerning Eye Exhibition yn Oriolau'r Mall, Llundain a dewiswyd dau driptych ar gyfer yr arddangosfa Dirwedd gyntaf ar Long Fordeithiau newydd Saga, sef y Spirit of Discovery.

Roedd y blynyddoedd a dreuliais yn astudio ac yn byw yng Nghasnewydd yn arwyddocaol. Fe wnaethon nhw siapio pwy ydw i heddiw a gwneud i mi fod yn ffyrnig o annibynnol. Edrychaf yn ôl arnynt yn annwyl ac o bryd i'w gilydd af ar bererindod i ymweld â hen lecynnau fy ieuenctid, adeg dda oedd honno.

DYFYNIADAU

Gadewais harddwch gwyllt Sir Benfro i ddod i Gasnewydd. Roedd yn antur fawr i newid bywyd ar gyfer person un ar bymtheg mlwydd oed ond yn benderfyniad na fydda i fyth yn difaru.

Mae'r ffrindiau a wneuthum yng Ngholeg Celf Casnewydd yn dal i fod o'm cwmpas heddiw. Roedd yn lle arbennig a oedd yn cadarnhau cyfeillgarwch clos. Dysgodd y Coleg Celf i mi sut oedd amgyffred, sut i ddylunio, i arlunio, i fynegi. Dysgodd Casnewydd i mi sut i fyw.



Angela Crowcroft

Ganed Angela Crowcroft (gynt Evans) ar Jersey yn Ynysoedd y Sianel i rieni Cymreig, gan fynychu Coleg Jersey i Ferched lle magwyd ynddi'r cariad at gelf gan Pat Miller (a hyfforddwyd yn y Slade dan EH Gombrich ymysg eraill). Roedd hi'n ysbrydoliaeth i mi, yn gweld rhywbeth ynof ac yn awgrymu y dylwn fynd i Goleg Celf. Fe wnes i gwrs sylfaen yng Ngholeg Celf Abertawe yn 1976-1977 a chael gradd dosbarth 1af BA Anrh. Dylunio Graffeg (Darlunio) yng Ngholeg Celf Casnewydd rhwng 1977 a 1979.

Roeddwn yn lwcus i gael fy hun mewn coleg gyda thiwtoriad llawn cymeriad fel Tom Hughes a oedd yn rhannu eu diddordeb mewn datblygu a gwerthfawrogi sgiliau arlunio a gwneud printiadau ac roedd ganddynt gysylltiadau gydag artistiaid adnabyddus yng Nghymru a thu hwnt. Rhannodd â ni lyfryn ardderchog Mervyn Peake, *The Craft of the Lead Pencil* (1946), gyda ni, rhoddodd setiau o baent i ni ac arweiniodd lu o drafodaethau am gelf. Cefais fy nenu i'r adeilad Fictoraidd, gyda'i gromen verdegris gopr, ei du mewn prysur fel cwch gwenyn, gydag ystafelloedd rif y gwlith oddi ar risiau canolog gyda theils gwyn a gwyrdd, a byns Chelsea blasus yn y ffretur. Dyma'r cyfnod Pync, gyda phobl yn arbrofi â dillad rhyfedd a chanu mewn bandiau, gydag ymweliadau gan gyn-fyfyrwyr celf fel Ian Dury. Y flwyddyn ganlynol fe wnes i TAR mewn Celf ym Mhrifysgol Sussex, Brighton, gan fy mod yn bwriadu bod yn ddarlunydd ac yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol cefnogi fy hun i ddechrau trwy addysgu. Roedd yn flwyddyn brysur gydag ysgrifennu traethodau ac ymarfer addysgu.

Tua diwedd y cwrs cysylltodd Pat Miller â mi i ddweud bod swydd wag annisgwyl yn yr adran Gelf yn fy hen ysgol ac awgrymodd fy mod yn gwneud cais, felly yn 1980 roeddwn yn ôl yng Ngholeg Jersey i Ferched yn addysgu celf i ferched 11 - 18 oed, gyda'm cyn-athrawes yn gydweithiwr hyd nes iddi ymddeol. Yn gynnar iawn, darganfûm fod



swydd addysgu yn ddiddorol iawn ac roeddwn yn hapus i'w dilyn fel gyrfa; yn ystod pedwar degawd (ac yn dal i gyfrif) rwy' wedi rhoi cynnig ar lawer o ffyrdd amrywiol er mwyn helpu myfyrwyr i ddysgu edrych, i werthfawrogi'r gwaith sy'n mynd i greu Celf ac i ddatblygu eu sgiliau. Rwyf wastad wedi gwneud arddangosiadau ymarferol, sy'n cael eu galw'n modelu erbyn hyn, ac wedi mwynhau dod i adnabod y myfyrwyr a cheisio magu eu hyder. Mae llawer o'm myfyrwyr wedi mynd ymlaen i Goleg Celf ac wedi cael gyrfaedd llwyddiannus yn y Celfyddydau. Rwyf wedi canfod fy mod yn dysgu drwy'r amser ac yn cael fy ysbrydoli gan fy myfyrwyr; nid wyf erioed wedi chwennych dyrchafiad gan y byddai hyn wedi fy nghadw allan o'r ystafell ddosbarth. Wrth gwrs, mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd, gyda mwy a mwy o bwysau i ddelio â nhw yn yr ysgol, ond mae newid o ran technoleg a'r rhyngwrdd bellach yn caniatáu i mi ddangos celf o unrhyw gyfnod i'm myfyrwyr ar gyffyrddiad botwm.

Y tu allan i'r ysgol rwyf wedi gwneud comisiynau ar gyfer posterï dramâu a chyfrannu at arddangosfeydd grŵp. Ers sawl blwyddyn rydw i wedi dylunio a helpu i lunio fflôt 35 troedfedd sy'n cymryd rhan ym mharêd blynyddol Brwydr y Blodau ar Jersey.

Rwyf wedi cymryd rhan mewn nifer o arddangosfeydd gan athrawon celf lleol ar hyd y blynyddoedd, ac edrychaf ymlaen at y cyfle i ddatblygu fy ngwaith fy hun yn y dyfodol.



Philip Cumpstone

Ganed: Rhydychen 1964

Symudodd Philip i dde Cymru yn 6 oed, gan gael ei hudo ar unwaith gyda'r bryntni go iawn, tai teras, llethrau serth difrifol a'r dirwedd ddiwydiannol helaeth. Mae'n ystyried ei hun yn ffodus o fod yn dyst i ddiwedd go iawn cyfnod y baddonau tun a'r mentyll nwy. Gweddillion pyllau glo, moderniaeth a esgeuluswyd, halogiad a llwch. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y setiau teledu du a gwyn, y sgwario caled ac afleoliad sgiliau cymdeithasol mewn 'Spaghetti Westerns' a'r nifer fawr o bobl a anharddwyd mewn damweiniau diwydiannol. Bysedd coll, llygaid gwydr a hiliaeth achlysurol anesboniadwy. Maes o law cafodd ei addysg gynradd yn Ysgol Iau Pontlotyn, ei feddwl wedi ei agor, fel y digwyddodd, gan ffyniant brigâd ffres, llawn gweledigaeth o hipsters mewn olew patchouli a siacedi lledr Addysgwyr Marcsaidd deheuig a huawdl, yn ymwreiddio'r sgiliau metaffisegol sylfaenol o gwestiynu, dadadeiladu ac archwilio. Cafwyd addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Heol-ddu, Bargoed, 1976-1984.

Deffro amlddiwylliannol:

Symudodd Philip o gartref y teulu yn Fochriw, yn 19 oed, i Ebenezer Terrace, Casnewydd, Gwent. Roedd y chwyldro diwylliannol 10 mis o hyd, sef y cwrs sylfaen Celf a Dylunio 1984/85 yn anecs Emlyn Street, yn disgwyl amdano. Arhosodd yng Nghasnewydd i gwblhau ei BA (Anrh.) mewn Dylunio Graffeg yn Clarence Place, gan raddio gyda 2.1 yn 1988. Symudodd i Birmingham yr un flwyddyn, gan fynychu Prifysgol Canolbarth Lloegr yn Costa Green. Yma cwblhaodd MA mewn Dylunio Graffeg, gan raddio ym 1989.

Cyflogaeth

Yn ystod yr MA cafodd wahoddiad i addysgu yng Ngholeg Technegol Matthew Bolton ar y cwrs Diploma Cenedlaethol mewn Dylunio Graffeg fel tiwtor darlunio gwadd. Yn 1991

ymunodd â'r Adran Hanes Cymdeithasol yn Amgueddfeydd ac Oriel Gelf Dinas Birmingham fel dehonglydd ar safleoedd hanesyddol o amgylch y ddinas am y chwe blynedd nesaf.

Gan ddychwelyd i dde Cymru ar ôl absenoldeb o 8 mlynedd, ymgartrefodd am chwe blynedd arall yn Graig-y-Betting, sef cwt bugail ynysig o garreg ar Heol Gwrhyd yng Nghwm Tawe. Ar ôl cyfnod byr fel Dylunydd Graffeg stiwdio cyffredin, cysylltodd Adran Gelf Coleg Gŵyr Abertawe ag ef, lle bu wedyn yn addysgu Hanes Celf, Dylunio Graffeg, Teipograffeg a hefyd yn diwtor personol a hynny am 18 mlynedd. Treuliodd flwyddyn wedyn fel athro cyflenwi o fewn y sector AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) ac AEY (Anhwylder Emosiynol ac Ymddygiadol) cyn dod yn Gydgyssylltydd lefel-A ar gyfer y cyrsiau Dylunio Graffeg a'r cyrsiau Ffotograffiaeth yng Ngholeg Sir Gâr, Llanelli.

Ym mis Ebrill 2018 talodd ei forgais ar Temperance Cottage yng Nghwmllynfell, ar odre'r Mynydd Du. Gan benderfynu'n furiadol i gymryd seibiant oddi wrth addysgu, mae wedi dod bellach i ganolbwyntio ar greu busnes creu cadeiriau gefn ffyn Cymreig yn ogystal ag ehangu i wneud bara artisan er llesiant maeth iddo, ei ymgysylltiad a'i foddhad ei hun.

Aelodaeth Broffesiynol:

Yn 1994 etholwyd Philip yn aelod o Gymdeithas y Darlunwyr Pensaernïol a Diwydiannol, yn 2015 etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas yr Awduron ac yn 2016, daeth yn Gydymaith Ardystiedig i Adobe (Argraffu a Chyhoeddi Papur). Bu Philip hefyd o dro i dro yn hongian o gwmpas Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif a Chymdeithas y Darlunwyr.

Cadeiriau Gefn Ffyn Cymreig

Mae Philip wedi bod yn ymchwilio ac yn archwilio cydestun hanesyddol y gadair gyn-ddiwydiannol a adeiladwyd gan grefftwyd. Galwad y mae'n ei briodoli i adwaith isymwybodol i'w addysg gelfyddydol sydd wedi bod yn bennaf yn y byd 2-ddimensiwn. "Roeddwn i'n teimlo fwyfwy bod angen i mi archwilio 3D, ar yr un pryd ag ailadeiladu, adnewyddu ac ymestyn ffabrig yr adeilad sy'n gartref i mi. Mae fy niddordeb gyda phensaerniaeth o safbwynt lloches wedi bod gyda mi gydol fy oes". Mae hefyd yn ymgolli'n llwyr mewn gwneud bara, tyfu perlysiâu, llysiau a chyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, symud tuag at fywyd o fod yn hunangynhaliol ac yn fyfyrïol.

Dyfyniad: "Cadwch eiriadur ar y Bwrdd wrth erchwyn y gwely bob amser. Ni wyddoch pa bryd y gallai fod ei angen arnoch".

John Exton

Casnewydd 1966-1969 Dylunio Graffeg

Gadewais yr ysgol uwchradd yn 15 oed, heb unrhyw gymwysterau. Dechreuodd fy addysg go iawn gyda 4 blynedd o Ysgol Gelf yn Wakefield, gan ennill digon o TGAau i gael fy nerbyn ar y cwrs ar gwrs Dip A.D. Roedd Casnewydd yn amser ffurfiannol. Cerddais drwy'r drysau dwbl hynny ac agor llwybr ar fy ngyrfa i'r dyfodol. Roeddwn yn ffodus o ennill cystadleuaeth a oedd yn agored i bob artist gyda chysylltiadau Cymreig ledled Ewrop ar gyfer rhifyn cyntaf y cylchgrawn Cymraeg 'Mabon'. Roedd gen i hefyd ddyluniadau wedi'u harddangos yng Nghanolfan Ddylunio Tywysog Cymru. Trwy gydol hyn cefais gymorth ac anogaeth gan fy rhieni ... Ni allaf fyth dalu nôl iddynt.

Yng Nghasnewydd, cyfarfûm â phobl o bob cefndir, a agorodd orwelion eang i mi, gan ymestyn a herio Celfyddyd yn ei holl agweddau. John Wright, Derek Butler, Jeff Clements, Doug Halliday, Charlie Gillard, Harry Meadows, Les Darbourne, Steve Atkinson, i enwi ond ychydig o'r staff, a'n gwthiodd ac a'n perswadiodd ni drwy gydol ein tair blynedd ffurfiannol.

Dilynwyd hynny gan yrfa addysgu...

Ysgol Uwchradd Kingston, Hull. Athro celf (2 flynedd)

Ysgol Gelf Nuneaton. Darlithydd a/g Printiadau (2 flynedd)

Ysgol Aylestone, Henffordd. Pennaeth Adran Astudiaethau Esthetig a Chreadigol (6.5 mlynedd)

Coleg Clarendon, Nottingham. Pennaeth Cwrs Sylfaen. (2.5 mlynedd)

Ysgol y Brenin, Caerwrangon. Pennaeth Adran (12 mlynedd)

Ysgol Trefynwy. Pennaeth Adran (15 mlynedd)

Yn ogystal â'r swyddi hyn dysgais yn rhan amser mewn ysgolion preswyl, Borstal, Colegau Celf amrywiol, yn ogystal â bod yn Brif Safonwr Cynorthwyol ar gyfer OCR, gan ymweld ag ysgolion a cholegau ledled y DG, dysgais yn Hong Kong, gan ddyfeisio unedau B.A. ar gyfer athrawon Celfyddyd Tsieineaidd. Cefais fy secondio hefyd i'r Weinyddiaeth Addysg, Singapore, gan roi cyngor ar Gelf Lefel 'A'.

Yn ogystal, rwyf wedi bod yn hyfforddwr, yn trefnu



cyfarfodydd, yn trafod safonau, arholiadau newydd a chynlluniau peilot. Rwyf hefyd wedi creu cyrsiau preswyl yng ngorllewin Cernyw, yn gweithio gyda nifer fawr o artistiaid.

Fel athro roedd gen i fantra syml. 'Fi yw'r bont y bydd llawer yn pasio drosti'. Mae addysgu wedi bod yn rhan hanfodol o'm bywyd. Yn gweithio yn ysgolion y wladwriaeth a rhai annibynnol, yn addysgu ac yn darlithio mewn ysgolion cyfun, mewn Colegau Celf ac yng Mhrifysgol Cheltenham a Chaerloyw. Rwyf wedi bod yn ffodus i gyfarfod, gweithio ochr yn ochr ac arsylwi ar arferion da a gwael.

Fel athro, taniais y ffiws papur glas ar lawer i dân gwyllt, gan alluogi myfyrwyr i ffrwydro'n greadigol.

Fe wnaeth fy ngwraig, Sue a minnau, ddysgu gyda'n gilydd yn Nhrefynwy. Rydym yn rhan o draddodiad Mari Lwyd, ac yn ymddangos ledled y DG, gyda'n stabl o 4.

Mae gen i ddau blentyn hynod o greadigol o'm priodas flaenorol, Morwenna a Gweniver.

Mae fy mywyd wedi bod yn antur greadigol. Fy mhrif gynfas yw'r myfyrwyr yr wyf wedi'u haddysgu a'u meithrin.

Mae fy ngwaith personol yn ymwneud â Ffotograffiaeth, Gemwaith a Darlunio.



Richard Frame

Richard Frame

Dechreuodd fy addysg gelfyddydol yn adran sylfaen Coleg Celf Caerdydd ym 1970, o'r fan lle y symudais yn anfoddog i Gasnewydd ym 1971. Fy nhrydydd dewis. Roeddwn i eisiau symud i ffwrdd o Gymru a mynd i goleg glan môr. Ond fel y trodd allan, dyma'r lle gorau y gallwn fod wedi mynd iddo, rwy'n dal yma, yn Gasnewydd hyd fodiau fy nhraed

Doedd gen i ddim syniad beth oeddwn i eisiau ei wneud pan oeddwn i'n gorffen yn y coleg, doedd addysgu ddim yn rhan o'r darlun o gwbl. Roedd gen i ddiddordeb yn y celfyddydau perfformio. Am ddwy flynedd roeddwn wedi bod ar panto ac roeddwn yn gwneud gwaith gwirfoddol mewn ysgol anghenion arbennig lleol, yn seiliedig ar ddrama. Yn ystod fy mlwyddyn olaf, gadewais y coleg am ychydig wythnosau ac ymunais â Syrcas Hoffman gan deithio o amgylch de Lloegr. Wedi dychwelyd i Gasnewydd dechreuais weithio ar fflm gyda chyd-fyfyrwr, Cathy Cooper, a gynhyrchwyd gan gyn-fyfyrwyr o Gasnewydd, Steve Stevenson a Maggie Brooks, y ddau yn astudio yn y National Film School. Mi fues i hyd yn oed yn rhan o fand o ryw fath yn y coleg.

Ar ôl gadael y coleg fe wnes i helpu i sefydlu cwmni theatr i blant ac am ddwy flynedd bûm yn teithio o gwmpas gwledydd Prydain yn ymweld ag ysgolion cynradd. Arweiniodd hyn at weithio gyda phobl ifanc yn yr ysbyty seiciatrïg lleol ac yn y pen draw hyfforddiant fel nyrs seiciatrïg.

Bu gennyf ddiddordeb erioed yng ngwaith Gilbert a George, Richard Long, celf perfformio, syrcasau a gwyliau a dechreuais gymryd rhan mewn celfyddyd gymunedol, gan helpu i redeg meysydd chwarae antur i blant, carnifal Pillgwenlly, Gŵyl Baneswell.

Yn 1983 cefais fy nghyflogi i sefydlu a rhedeg sefydliad digartref newydd yng Nghasnewydd, mewn adeilad drws

nesaf i glwb nos TJ. Roeddwn eisoes wedi adnabod Johnny Sicolo o'm dyddiau fel myfyrwr a daethom yn gydnabod unwaith yn rhagor.

Roeddwn i bob amser yn ymwybodol o fanteision 'therapi celf' ac roedd sesiynau'n cael eu cynnal yn rheolaidd yn yr hostel. Chwaraeodd celf ran bwysig ym mhob un o'n hadeiladau, a byddai pawb a oedd yn eu defnyddio neu'n byw ynddynt yn helpu i ddylunio a gwneud popeth, o fosaigau anferth i'r placiau yn dynodi agor adeilad.

Ym 1990 agorwyd y ganolfan gelfyddydau bwrpasol gyntaf i bobl ddigartref, gan ddarparu ystod eang o weithgareddau celfyddydol, gan gynnwys grŵp arlwyio, stiwdio recordio a 'Theatr y gorthrymedig'. Fforwm a oedd yn caniatáu archwilio pynciau sensitif. Cynhyrchwyd dau albwm, yn cynnwys gwaith y myfyrwyr, ac fe recordiwyd albwm arall gan gerddor proffesiynol yn defnyddio cerddorion digartref i gyfeilio iddo. Rhoddodd Eric Clapton hyd yn oed nifer o'i ganeuon i'w defnyddio gan y cerddorion ar gyfer ymdrechion codi arian.

Ers ymddeol, deuthum yn rhan o'r ymgyrch i atal cau Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, a oedd yn llwyddiannus. Roeddwn wedi cadw mewn cysylltiad ag un o fy nhwtoriaid, John Selway ac fe'm perswadiodd i ddod yn Ysgrifennydd y 56 Group (Cymru), gwaith a wnes am flynyddoedd lawer, gan drefnu nifer o arddangosfeydd ar eu cyfer.

Gyda dau ffrind, rwyf wedi bod yn rhedeg cwmni cyhoeddi nider elw. Ym 2017 cyhoeddodd ymlyfr gan yr awdur o Gaerllion, Arthur Machen 'The Great God Pan' a ddarluniwyd gan John. Tu'r un pryd ysgrifennodd ein cyfaill Jon Gower fywgraffiad o John o dan y teitl 'Vigilant Imagination'. Gwnaethom gyhoeddi hwn ar y cyd â'r HM'm Foundation, yn anffodus bu farw John Selway ychydig cyn iddynt gael eu rhyddhau. Ein gwaith nesaf oedd gydag aelod o'r Grŵp 56, sef Pete Williams a ddarluniodd ein hargraffiad newydd o waith arall gan Machen a lansiwyd ym Mehefin 2019 yng Nghanolfan Gelfyddydau Barnabas yng Nghasnewydd.



Bari Goddard

Un tro roedd yna fachgen bach hyll o Gymru oedd eisiau canu caneuon hardd a chreu delweddau hardd ond yn anffodus, dywedwyd wrtho na allai ond wneud un oherwydd dyna oedd y byd yn ei fynnu. Felly mi feddylodd am hyn am ychydig a dod i'r unig gasgliad yr oedd yn fodlon ag ef - "Yn wir? Edrychwch arna i, bydda i'n gwneud nhw i gyd'.

Ar ôl gadael Casnewydd yn 1980 gyda BA mewn Dylunio Graffeg, fe wnes i symud trwy wahanol swyddi dylunio a chelfyddydol wrth ddyfalbarhau o hyd gyda fy hoffter o gerddoriaeth tan 1983 pan symudais i Lundain ac ymuno â fy 'mand go iawn' cyntaf sef 'KNIVES'. O hynny tan i mi 'ymddeol' o gerddoriaeth yn 1996 roeddwn yn canu, perfformio ac ymddangosodd gydag artistiaid mor amrywiol â Jimmy Somerville, Cliff Richard, Then Jerico, Banderas, Horse, Sex gang Children, Madonna, cSouthern Death Cult, The Cure a Scary Thieves. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd cefnogi Bowie ym Mharis ym 1994, gan berfformio yn y premiere ar gyfer 'High Heels' gan Pedro Almodovars yn Llundain yn 1991 ac ymddangosiadau digymell a dirybudd fel llais cefndir i Lily Savage fel ei nai 'chav', Stu Savage, tra bod Jimmy Somerville mewn drag yn perfformio fel ei 'slwten' o nith, Jessie Savage.

Roeddwn i'n paentio ac yn tynnu lluniau drwy'r blynnyddoedd hyn yn barhaus ac yn manteisio ar bob agwedd ar y ffordd o fyw hedonistaidd y mae bod mewn band roc yn ei gynnig. Fe ddilynodd arddangosfeydd yn Llundain, Paris a Madrid, ond ar ôl gadael fy ngyrfa gerddorol ar ôl taith fyd-eang dros 10 mis heriol, penderfynais fy mod eisiau rhoi cynnig ar rywbeth arall yn greadigol, rhywbeth a oedd yn mynnu disgyblaeth nad oeddwn erioed wedi gallu ei feistrolu mewn gwirionedd - Ffotograffiaeth.

Felly yn 2005 prynais gamera, ceisio darllen llyfr ar ffotograffiaeth ac, yn fy naifrwydd a thrahauster llwyr, ei ddiystyru'n syth a meddwl 'Galla i wneud hynny'. Cafwyd llwybr dysgu hirfaith yn dilyn hynny, gwrthodiad ar ôl gwrthodiad o ran arddangosfeydd am flynyddoedd tan yn 2012 cefais fy sioe unigol gyntaf yn Nwyrain Llundain mewn cydweithfa Papur Newydd Anarchaidd.

Ers hynny rwyf wedi bod yn ddigon lwcus i fod wedi arddangos ar hyd a lled y byd yn y dinasoedd a'r orielau mwyaf anhygoel, un o'r uchafbwyntiau fel rhan o sioe grŵp yn y Louvre, Paris yn ystod Haf 2015.

Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gydag Andi Sex Gang ar ei brosiect newydd Dada Degas, Sex Gang Children ar eu halbwm newydd, Holly Johnson ar brosiect hoffter ar y cyd ar Derek Jarman ac ar fy arddangosfa unigol nesaf 'The Dress' ar gyfer 2020.

Mae arddangosfeydd ffotograffig diweddar yn cynnwys:

Arddangosfa 13 Group, Groznan Croasia 2019.

Arddangosfa 13 Group, Koprivnica Croasia 2019.

Arddangosfa 13 Group, Lauderdale House, Llundain 2019.

Arddangosfa 13 Group, Lauderdale House, Llundain 2018.

Arddangosfa 13 Group, Split Croasia 2018.

Arddangosfa 13 Group, Lauderdale House, Llundain 2017.

Arddangosfa unigol, Palas Sponza, Dubrovnik 2017.

Gŵyl Awdl i Fywyd, Montenegro 2017.

Arddangosfa 13 Group, Llysgenhadaeth Gweriniaeth Croasia yn Llundain 2017.

Arddangosfa unigol Dubrovnik Antique Gallery, Dubrovnik 2016.

Llysgenhadaeth Gweriniaeth Croasia yn Llundain 2015 a 2016.

Y Louvre, Paris 2015.

Cave Gallery, Llundain 2015.

https://www.flickr.com/photos/g_o_d_photography/

<https://godphotographyblog.wordpress.com/>

Email - god.photography@gmail.com



Nick Long

Rwyf bob amser wedi bod yn boyo Ysgol Gelf, ac nid yw fy mywyd ym myd addysg uwch yn fawr ddim mwy nag esgus i barhau felly. Bûm yn ddigon ffodus i ymweld ag Ysgolion Celf ar draws y byd, a boed nhw yn Shanghai neu ar Aber Afon Hafren, maent i gyd yn cynnwys yr un mathau o bobloedd. Cynhyrfwyr, yn y cywair llon a'r lleddf. Y rhai hynny sy'n gyndyn i gydymffurfio, y rhai sy'n mynd i lefydd lle mae llawer yn ofni ei droedio, y rhai sy'n dysgu'r rheolau 'mond i'w torri, a'r rhai sy'n ymddwyn yn wahanol oherwydd eu bod nhw'n wahanol.

Pan ddeuthum yn bennaeth ar adran cyfathrebu gweledol {Prifysgol Solent, 2012}, daeth yn rhan o'm swydd i reoli'r gwahaniaethau hynny. A phan gyrhaeddodd y negeseuon e-bost yn dweud, "Mae eich myfyrwyr wedi bod yn {nodwch weithgarwch hynod ryfeddol yma}, esboniwrch pa fesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto", roedd gennyf eisoes ateb safonol yn aros yn fy ngwaith i yw rhai'r rhyddid iddyn nhw fod felly". Wrth gwrs, anfonais i fyth mo'r e-bost hwnnw. Yn hytrach, ymddiheuraais yn llaes ac addo na fyddden nhw byth yn gwneud y fath beth ar stryd fawr brysur eto {I wneud rhywbeth o bwys, yn y lle cyntaf mae'n rhaid i bobl sylwi arnoch}.

Efallai nad yw'n syndod a rhywfaint yn garedig hefyd, gofynnwyd inni a fyddem yn hoffi creu ein Hysgol Gelf ein hunain mewn tir a oedd ymhell bell i ffwrdd o brif gampws y Brifysgol.

Yn ystod yr wythnos gyntaf, clywais ffrwydrad diamheuol The Stooges, 'I wanna be your dog'. Wrth ddarganfodyffynhonnell, dois o hyd i grŵp o fyfyrwyr celfyddyd gain

yn edrych i fyny at ddarlithydd ymweld, a oedd wedi ei orchuddio mewn menyn cnau. Dywedodd ei fod ar fin ail-greu'r plymiad llwyfan cyntaf erioed {Iggy Pop, Cincinnati, 1970, mae ar YouTube, ewch i'w wyllo}. Byddai'r gwleidyddol yn awgrymu y dylwn fod wedi torri ar draws a gofyn a oedd y ffurflenni asesiad risg perthnasol wedi eu llenwi. Yn hytrach, wrth iddo neidio i'r awyr, fe ymestynais i fyny i'w ddal. Yna yn goron ar y cwbl, aethom ar orymdaith â'n dyn uwch ein pennau drwy bob ystafell a choridor yn yr Ysgol Gelf. Dylwn fod wedi ymddeol yn y fan a'r lle, oherwydd ni fyddai unrhyw ennyd i guro honna yn fy ngyrfa ym maes Celf a Dylunio.

Petawn i'n ceisio nodi'n union ym mha le'r oeddwn yn ffurfio'r rhan fwyaf o'm syniadau am yr olwg a'r teimlad ddylai fod ar Ysgol Gelf, byddai cysgod Casnewydd yn fawr y tu ôl i mi. Yn fy nhymor cyntaf, gwahoddodd yr artist perfformio Stuart Brisley bawb i do Clarence Place i berfformio ei waith diweddaraf. Yn syml iawn mae'n rhy farwol herfeiddiol i ailadrodd yn ddiogel yr hyn a wnaeth nesaf yma, ond digon yw dweud fy mod yn gwybod nad oeddwn yn Kansas bellach {neu ar y

Kanvas}. Ceisiodd Gillian Clarke {Bardd Cenedlaethol Cymru 2008-2016} fy addysgu i ysgrifennu'n greadigol {sori Gillian}. Crwydrodd Josef Koudelka i mewn i siarad am ei ffotograffau o'r Gwanwyn ym Mhrâg. Ac felly, ymlaen ac ymlaen. Yn fyr, roedd yn addysg llawn uchafbwyntiau a ddaeth yn esiampl gofiadwy o sut y dylai osmosis weithio mewn Ysgol Gelf. Ei llenwi â phethau diddorol a gweld beth sy'n digwydd.

Mae fy ngwaith fy hun wedi bod yn gydweithredol gan mwyaf. Chwe chyfrol a thros 130 o gyfweiliadau â chyfathrebwyr gweledol {y rhan fwyaf yn gynhyrfwyr} o bob cwr o'r byd {SBooks 2002-2012, pe bawn i'n gwybod pa mor hir y bydden nhw wedi ei gymryd, fyddwn i ddim wedi dechrau.

Yn fwy diweddar, rwyf wedi ceisio osgoi tynged llawer o ddylunio graffeg {papur lapio pysgod a sglods yfory} a chynhyrchu gwaith ar gyfer mannau cyhoeddus. Dilynwyd hynny gan chwarter milltir o balmart teipograffig braidd yn hyfryd {Shirley Towers, 2014}, murlun o fath 50 metr gyda 45 o baneli wedi'u eu sgythru {adeilad Spark newydd, Southampton 2016, nodyn i'w hunan, paid byth â gweithio gyda gwydr eto, mae'n torri}, a monolith o fath tri metr o uchder {adeilad Chwaraeon newydd, Southampton 2018, roeddwn wastad wedi caru '2001, A Space Odyssey'}.

Mae'r darn a welwch yma yn gydweithrediad i greu 'Sgôr Graffeg', nodiant y gall cerddorion ei ddefnyddio i greu perfformiad byrffyr. Mae'n chwe metr o hyd ac wedi ei greu o synau taith gerdded rhewlyd trwy Oslo - a recordiwyd. Fe wnes i ymddeol o fy mywyd mewn Ysgolion Celf flwyddyn yn ôl. Ydw i'n ei golli? Wrth gwrs fy mod i! A faswn i'n gwneud unrhyw beth yn wahanol? Wrth edrych yn ôl, fe fyddwn i wedi tynnu fy nghrys Ben Sherman vintage cyn i mi ddal y boi yna wedi'i orchuddio â menyn cnau.

Nick Long 2019

{Cadwch yn gynnes y gaeaf hwn, gwnewch drafferth}

Fy mywyd mewn 14 pwynt

Roger Lougher



Roger Lougher

- 1958-1960** Y blynyddoedd trefedigaethol: Rwy'n fabi'r ail don cyfnod y 'baby boomer', a aned yn yr Ymerodraeth Brydeinig yng Ngogledd Rhodesia, Zambia erbyn hyn diolch byth; pan oedd yr Americanwyr yng nghanol Argyfwng Taflegrau Ciwba, ni chafodd bygythiad y ffaith fod difodiad niwclear ar fin digwydd ei godi tan 1989ish
- 1960-1969** Y blynyddoedd cynnar: symudom yn ôl i'r DG i fyw gyda Nan, mam i fy mam, yn Tŷ-du ac yna prynodd dad dŷ ym Masaleg. Roedd gan Nan radio mor fawr â chwpwrdd. Cawsom Ryfel Fietnam dros frecwast.
- 1969 - 1976** Blynyddoedd yr ysgol fawr: Euthum i'r ysgol fawr a glaniodd yr Americanwyr ar y lleuad; yr wythnos dri diwrnod; yr Argyfwng Olew a Pync. Mae Pync nawr yn teimlo fel gwaedd a ragflaenodd arswyd y 'Rins Glas'. Roeddem yn meddwl fod pync yn bod oherwydd pa mor ddrwg yr oedd pethau, nid pa mor ddrwg y byddai pethau.
- 1976-1977** Sylfaen mewn Celf a Dylunio, Coleg Addysg Uwch Casnewydd. Fy nechrau fel person annibynnol. Dyma pryd y cyfarfûm â phobl a roddodd ganiatâd i mi fod yn fwy ohonof i fy hun. Hwn hefyd oedd y golled gyntaf, roeddwn i'n symud ac yn cael fy symud y tu allan i'r byd roeddwn wedi fy magu ynddi.
- 1977-1980** BA Celfyddyd Gain, Ysgol Gelf Falmouth. Llawer mwy o gelf a phobl gelfyddydol a llawenhau a dysgu
- 1979-1990** Y 'Rins Glas, cyfnod 'ni chaiff ei henw ei yngan', y lleidr llaeth, y pedlerwr heroin, gwerthwr ein hetifeddiaeth, yr agorwr amgueddfa, dinistriwr gobaith, nani'r Llynges, yr un sy'n gwadu cymuned, y pla ar undebau, pawen cath Eton 'PAW, yr homoffôb, Ffugenw Asur, Melltith Cobalt,

- y na-ad-fi'n-angof-las, y gwydr glas cysetlyd, yr hanner nos las alarus cyn toriad gwawr y gobaith coch, y glas wy drwg, y malltod)
- 1981-1991** Blynyddoedd cynnar Llundain; addasu ar ôl coleg; genedigaeth The Illustrated Guide to ... gwyddoniadur casgladwy mewn rhannau. The Illustrated Guide ... ar fideo. negesydd beicio, Streic y Glowyr, AIDS.
- 1991-1998** Blynyddoedd Llundain mewn animeiddiad. Dechreuais weithio ym maes animeiddio. Cefais fy hudo gan fy niffyg crebwyll a'r posibilrwydd o gael fy nhalu i dynnu lluniau.
- 1998-1999** Cyfnod byr yn America, aeth animeiddio â mi i Hollywood.
- 1999 - 2000** Atgyfodi blynyddoedd Casnewydd; yr oedd fy nhad wedi marw cyn imi fynd i America ac ro'n i eisïau bod o gwmpas y lle os oedd ar mam fy angen i yn ei henaint, gwaith gofal
- 2000-2005** Blynyddoedd Caerdydd: parhau â gwaith mewn gofal, 9/11, Rhyfel Afghanistan, Rhyfel Irac, 7/7, llofruddiaeth Jean Charles da Silva e De Menezes
- 2005-2007** MA doc phot, UWIN
- 2007-2009** Blynyddoedd y felin. Gwerthais fy nhŷ yng Nghaerdydd a phrynu melin yng ngorllewin Cymru.
- 2009-2019** Y blynyddoedd rhod. Bod mewn grŵp dan arweiniad artistiaid.
- 2019 - 2020** Beth nesaf?



Ian Robert MacGregor

1952 - 2006

Ar 31 Awst 2016, digwyddodd rhywbeth gwyh a'r cyfan yn sgil grym technoleg fodern, y cyfryngau cymdeithasol, hiraeth a chadw stwff o amser maith yn ôl. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb dudalen Facebook Coleg Celf Casnewydd a sefydlwyd gan Neil Carroll.

Ymunodd ein 100fed aelod Leanne MacGregor â'r grŵp i chwilio am rywun oedd wedi cwrdd neu'n adnabod ei diweddar thad, Ian MacGregor, a raddiodd mewn Dylunio Graffeg yn 1975. Wyddai hi ddim byd oll am ei ddyddiau cynnar a'i fywyd yn y coleg. Y cyfan oedd ganddi oedd ychydig o ganiau rhydlyd a thapiau ffilm arbrofol a wnaed ganddo yn ei flwyddyn olaf.

Ffliwc lwyr oedd fy mod yn cofio am ryw Ian a weithiodd fel cynorthwydd camera ar gynhyrchiad Ysgol Ffilm Genedlaethol y bŵm i'n ymwneud ag ef yn ôl yn 1974. Roedd tri ohonom yn y tîm cynhyrchu yn gyn-fyfyrrwyr o Gasnewydd.

Roedd yr holl luniau a dynnwyd yn ystod y ffilmio yn dal gen i felly fe wnes i eu gwirio nhw yn erbyn yr ychydig ddelweddau a oedd gan Leanne o'i thad. Fe wnes i ganfod ymgeisydd posib. Ac efe ydoedd. Tad Leanne. Roedd hi wrth ei bodd ac felly minnau hefyd. Roedd yn foment emosiynol iawn.

Yn 2019, penderfynodd Leanne i gael y tapiau wedi'u digideiddio ar gost fawr gan nad oeddent mewn cyflwr da a gyrrodd y ffeiliau ataf. Rwyf wedi llunio collage o eiliadau o'r ffilmiau i gynrychioli amser Ian MacGregor yng Ngholeg Celf Casnewydd ac er cof amdano. Rwy'n siŵr ei fod wedi gwneud llawer mwy na hyn ond dyma'r cyfan sydd gennym.

Cathy Cooper 2019





Stephen Maguire

Myfyrdod ar y dylanwad cadarnhaol parhaus a gafodd mynychu Coleg Celf Casnewydd yn nechrau'r wythdegau ar fy ngwaith ac a arhosodd gyda mi.

Pan oeddwn yn yr ysgol, cefais fy nysgu, un-i-un, am 2 flynedd, gan argraffwr haniaethol a phaentiwr ffigurol Dennis Hawkins (Slade 1949-52). Roeddwn yn ffodus iawn ac roedd yn gyfnod creadigol a ffurfiannol iawn i mi.

Wrth gyrraedd drwy'r system glirio yng Nghasnewydd, gan geisio ymsefydlu yn y neuaddau preswyl truenus, doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth ar y dddear oedd yn digwydd, na pham oeddwn i yno.

Felly y dechreuodd cyfnod o 2 flynedd a hanner o chwarae o gwmpas a darganfod, wedi'i phlethu â rhai darlithoedd Hanes Celf da iawn, cerddoriaeth a hedonistiaeth amatur. Cyfarfûm â ffrindiau da, ac yna'r sylweddoliad gwirioneddol frawychus yn y 6 mis olaf fod angen i mi gael gradd, neu dim ond anghofio fy nghyfnod yno'n llwyr.

Roeddwn wedi ail-ddyfeisio fy hun fel ffotograffydd Celfyddyd Gain, gan ddefnyddio fformat canolig i gipio unrhyw ffurf haniaethol neu od a oedd yn ei gyflwyno ei hun yn y 'viewfinder'. Dysgais sgiliau'r ystafell dywyll yr oedd eu hangen arnaf i gynhyrchu portffolio o fy ngwaith gorau ar gyfer y sioe raddio.

Roedd fy asesiad allanol olaf gan Sue Davies, sylfaenydd the Photographers Gallery, Llundain (byddai Casnewydd wastad yn rhagori ar wahodd y darlithwyr allanol gorau i ymweld).

Cafodd Sue ei hebrwng gan Ernie Zobole, Jack Crabtree, Ivor Davies, John Selway a'm tiwtor 'personol' Keith, y bûm mewn gwrthdaro cyson ag ef.

Dechreuodd John drwy ddisgrifio fy ffotograffau fel 'arluniol' a oedd yn gosod yr olygfa yn syth, mwynhad ar y cyd, yn myfyrio ar gyfeiriadau a dylanwad arluniol, a phrofiad cwbl gadarnhaol. ... Ges i 2:1.



Yr hyn nad oeddwn wedi'i sylweddoli yn yr amser a dreuliais yng Nghasnewydd, oedd bod fy ngrym o ran arsylwi, cydbwysedd, cyfansoddiad, cytgord a chanfyddiad yn tyfu'n barhaus yn ei ddysgl petri ei hun.

Gadewais Gasnewydd a rhyw lithro i weithio mewn fframwyr lluniau Celfyddyd Gain a chynorthwyo mewn stiwdios recordio. Sef symud yn gyfan gwbl i gyfeiriad gwahanol a mwy technegol.

Yn fy mhen, roedd fy ngradd mewn Celfyddyd Gain wedi mynd yn ddiwerth yn sydyn, ond fe wnes i ei drosglwyddo i gymhwyster Dylunio Peirianeg Ôl-raddedig, gan ddysgu technolegau gweithgynhyrchu uwch, dylunio drwy gymorth cyfrifiadur i weithgynhyrchu, deunyddiau ac ati.

Treuliais yr 20 mlynedd nesaf yn y peiriant prosesu 'Design to Manufacture' a aeth â mi dros y byd i gyd. Rwy'n dal patentau ar y cyd mewn dyluniadau pecynnu.

Mae fy ngwaith wedi bod yn amrywiol iawn, o gynhyrchu hedfan animeiddiedig 3D drwy gynlluniau ar gyfer llinellau pacio i gwmni Cadbury (oherwydd nad oedd swyddogion gweithredol yn gallu darllen lluniadau Technegol) i ddylunio a gweithredu ffatri i gynhyrchu trydan o wastraff biniau duon a charthion.

GLENN MARSHALL



Glenn Marshall

1980-82 Ar ôl gadael y coleg roeddwn i'n cael trafferth dod o hyd i waith, fy mhrif broblem oedd fy mod yn meddwl fy mod yn 'artist' felly pan wnes i gael briffiau, fe wnes i eu hanwybyddu a gwneud fy nehongliad fy hun. Goroesais yn bennaf ar ffioedd gwrthod a thuniau wedi'u tolcio ar bris gostyngol mewn archfarchnadoedd. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu fforddio deunyddiau - mae gan y rhan fwyaf o'm gwaith portffolio coleg luniau ar eu cefnau.

1982-87 Cefais gyfle ar ôl i gydymaith fflat fy nefnyddio i brofi system paent digidol newydd sbon a oedd yn golygu pan oedd gorsafodd teledu'n dechrau mynd yn ddigidol, fy mod eisoes wedi cael profiad gydag 'etch-a-sketches' cyfrifiadurol.

Dechreuais weithio i TV-am yn tynnu lluniau o Roland Rat yn bennaf. Yn 1987 diswyddwyd fi a fy mrodyr yn y ffydd mewn ymosodiad cenedlaethol Thatcheradd ar weithwyr.

1987-92 Yn ystod y cyfnod hwn cefais fy nghyflogi ar waith ôl-gynhyrchu yn gwneud animeiddio ac effeithiau arbennig, ond gan amlaf fel 'matte monkey' a olygai fy mod yn treulio oriau yn cuddio neu'n cywiro ffilm a oedd wedi cael ei saethu'n wael. Fe wnes i hefyd weithio i ddarlledwyr teledu gan gynnwys BBC/ITV/Channel Four. Uchafbwynt oedd gwneud y testun emynau ar 'Songs of Praise'.

1992-2008 Un o'r cwmnïau y dechreuais weithio iddynt yn llawrydd fwy a mwy oedd ITN. Ar ôl tua 18 mis, sylweddolais yn sydyn fy mod yn gweithio yno'n llawn amser.

Yn 1998, mewn cyfarfod gydag asiantaeth frandio, deuthum ar unwaith yn Gyfarwyddwr Creadigol i ITN. Roedd yn ymddangos bod pawb yn yr Asiantaeth, gan gynnwys y gath, yn cael eu galw'n Gyfarwyddwr Creadigol felly dywedodd ein Pennaeth Newyddion wrthyn nhw mai fi oedd un ITN, mond fel ei bod yn edrych fel bod un ganddon ni. Cyhoeddwyd fy nyrchafiad y diwrnod wedyn - dim newid cyflog na newid rôl, dim ond teitl newydd sgleiniog.

Yn ITN weithiau, roedd angen i ni fflmio ein gilydd i ddarlunio graffeg stoc. Fe ystumiais i gynrychioli digartrefedd/byw ar y strydoedd, ac o bryd i'w gilydd byddai'r ddelwedd yn ymddangos ar y bwletinâu (newyddion ffug). Roeddwn yn aml yn meddwl tybed a oedd pobl a fu gyda mi yn yr ysgol/coleg wedi ei weld ar News At Ten a meddwl 'ro'n i'n gwybod y byddai'n diweddu lan fel 'na!'.

Ym 2008 gadewais ITN i dreulio mwy o amser gyda fy rheulu dychmygol. Rydw i bellach yn 'Ddychmygydd Cynnwys Aml-lwyfan Profiad Defnyddiwr Ymwybyddiaeth Brand Digidol ac yn Weledydd Byd-eang'. Yr unig ochr negyddol i hyn yw fy mod angen cerdyn busnes hurt o hir.

Dros y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi bod yn ymwneud yn bennaf â chartwnau a darlunio. Mae'r New Yorker, Italian Vogue, y New Statesman, The Economist, The Guardian a Private Eye yn rhai o'r cyhoeddiadau rwy'n mwynhau eu darllen.

Rydw i wedi curadu sawl arddangosfa gan gynnwys 'Glenn Marshall - Not Funny' sioe chwerw o'm holl waith a wrthodwyd a phrosiectau sydd wedi methu. Mae hyn bellach wedi troi'n rhyw fath o wrth-sgwrs-TED gyda llawer o sôn am fethiant ond heb ddiweddglo ysbrydoledig achubol.

Y peth roeddwn i'n ei garu yng Nghasnewydd oedd y disgyblaethau traddodiadol, fel arlunio bywyd, gosod teip ac animeiddiad â llaw ond hefyd cael y rhyddid anhygoel i arbrofi: - Treuliais ddau fis yn torri'r holl lythrennau 'e' yn unigol allan o nofel (roedd gen i ddau gopi) ac yn eu gludo ar ddarn arall o bapur.

Ond mi faswn i fodd bynnag yn hoffi pe bydden nhw wedi ein dysgu ni sut i dynnu llun trwynau.

@marshallcartoon

Kevin O'Farrell

1977 – 1979: Coleg Addysg Uwch Gwent, Casnewydd, Ffotograffiaeth Ddogfennol, cwrs dwy flynedd, Diploma mewn Ffotograffiaeth Ddogfennol, dan David Hurn a John Charity.


Yr oeddwn yn hynod o ffodus o gael fy derbyn ar y cwrs Dogfennol yng Nghasnewydd, yr oeddwn yn ddwy ar bymtheg oed yn y cyfweiliad a dim ond wedi troi'n ddeunaw pan ddechreuais, hon fyddai pedwaredd flwyddyn cynnal y cwrs a'r adeg honno, fi oedd yr ieuengaf i gael fy nerbyn ac arhosais am y ddwy flynedd lawn, (ar yr adeg honno fe allech chi ond wneud blwyddyn neu ddwy).

Roedd yn brofiad anhygoel. Dyma'r tro cyntaf yn fy mywyd pan oeddwn i'n gwneud yn union beth oeddwn i eisiau ei wneud, roeddwn i mor lwcus i ddarganfod hynny yn ifanc. Wedi gwneud sylfaen mewn Celf a Dylunio cyn mynd i Gasnewydd, roeddwn yn gwybod y math o ffotograffiaeth yr oeddwn am ei ddilyn a Chasnewydd oedd yr unig le i fod. Roedd yn lle ysbrydoledig, mae ethos ac angerdd ffotograffiaeth, wedi parhau i fod yn rhan bwysig o fy mywyd dros y 40 mlynedd diwethaf. John Charity a wnaeth imi ddeall bod ansawdd bywyd a'r modd yr oedd un yn byw ac yn gweithio mor bwysig, a barodd imi symud yn ôl i fyw i Lwerddon yn 1980, gyda'm gwraig i fod, Jane, (a weithiodd fel ysgrifennydd yn y brif swyddfa yn Clarence Place). Rydym wedi bod yn briod ers 1982 ac yn dal gyda'n gilydd.

Ffotograffydd dogfennol llawrydd, o 1980 ymlaen.

- Hysurwyddo a dysgu gweithdai Ffotograffiaeth Wyddelig gyda Christine Redmond, Paul Hill a Martin Parr
- Fel ffotograffydd, rwyf wedi cael erthyglau am fy ngwaith wedi eu cyhoeddi yn The British Journal of Photography, cylchgrawn Amateur Photographer, Creative Camera a'r Wooden Boat Magazine yn UDA.
- Llyfr Prosiect Lwerddon

Kevin O'Farrell



- Ffotograffydd llawrydd ar gyfer yr Irish Times, Sunday Business Post, The Sunday Tribune, Daily Express ac amryw o gyhoeddiadau eraill a phrosiectau llyfrau
- Yn 1986 derbyn bwrsari Celf Weledol Cyngor Celfyddydau Lwerddon ar gyfer y prosiect ffotograffig Mannau Ymddrochi
- Y ffotograffydd cyntaf yn Lwerddon i gael cynabyddiaeth gan Gyngor Celfyddydau Lwerddon, Artist Preswyl yn St Clare's Convent School Kenmare Co. Kerry a arweiniodd at arddangosfa yn Oriel Douglas Hyde yn Nulyn.
- Gwaith diweddar fu'r llyfr coginio Fishy Fishy Cookbook a gyhoeddwyd i gyd-fynd â chyfres RTE - Martin's Mad about Fish.
- Prosiect Cychod Traddodiadol Lwerddon
- Ar hyn o bryd yn gweithio ar Iard Gychod Hegarty, arddangosfa deithiol ffotograffig fawr a chyhoeddi llyfr. Prosiect tymor hir, a gymerwyd dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, yn dogfennu yr iard gychod pren traddodiadol olaf i oroesi. Teithio yn Lwerddon a'r Gogledd yn 2020 ac yn diweddu yn yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol yng Nghernyw, yn 2021

Arddangosfeydd Teithiol Unigol: Mannau Ymddrochi : Agorwyd yn y Project Art Centre yn 1988 gyda Tom Mc Ginty (The Dice Man). Canolfan Gelfyddydau Wexford, Wexford, Canolfan Gelfyddydau Garter Lane Waterford, y Butler Gallery, Kilkenny, Canolfan Gelfyddydau Triskel, Cork, Cibeal Cincise, Kenmare, Canolfan Gelf Dinas Limerick, Canolfan Gelfyddydau Ynys Nuns, Galway, Corner House Gallery ym Manceinion DG a'r Side Gallery yn Newcastle yn y DG

Arddangosfeydd unigol: The Gallery of Photography, Dulyn, Cibeal Cincise, Kenmare, Bandon Pottery, Co. Cork, The Irish Stock Exchange, Dulyn a'r West Cork Arts Centre, Skibbereen Co. Cork.

Arddangosfeydd Grŵp: Firs Welsh Open, Foto Gallery, Caerdydd, Cymru, Crawford Municipal Art Gallery, Cork, 'Ireland 85' Zurich, y Swistir, Irish Contemporary Photography, Guinness Hop Store Dulyn, 30 CONTEMPORARY COLLECTION at the Gallery of Photography, Dulyn, a 2017, 2018 a 2019 Members Show Uillinn: West Cork Arts Centre, Skibbereen, Co Cork.

www.kevinofarrellphotographer.com

Janne Rebecca Read



Janne Read

Ganed Janne Rebecca Read yn Arendal, yn ne Norwy. Astudiodd y cyfryngau a chyfathrebu yn Norwy a bu'n gweithio i bapurau newydd a theledu. Ym 1996 teithiodd i Gymru i astudio cwrs sylfaen Celf a Dylunio ac yna Ffotograffiaeth Ddogfennol yn ddiweddarach, yn y brifysgol sy'n gysylltiedig â Magnum, sef Prifysgol Cymru Casnewydd. Ei thiwtoriaid ac ysbrydolwyr cynnar oedd Pete Davis, Ken Grant, Paul Seawright a Clive Landen. Yn ystod ei hastudiaethau yng Nghasnewydd cyfarfu â'r artist Roderic Read. Priododd nhw yn Christchurch yn 1998. Yr un flwyddyn, dyfarnwyd iddi Brosiect Celf Gyhoeddus ym Mryste, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Lloegr. Roedd ei harddangosfa unigol gyntaf yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd yng Nghaerdydd yn 2000. Teithiodd yr arddangosfa i The Courtyard, Canolfan Henffordd i'r Celfyddydau. Mae wedi arddangos ei gwaith yn rhyngwladol ac mae'n cael ei chynrychioli mewn casgliadau preifat a chyhoeddus. Mae hi wedi bod yn artist yrŵyl yn Hovefestivalen. Comisiynwyd Janne gan y cwmni dylunio mewnol o Norwy, 'Henriksen Snekkeri', i gynhyrchu gwaith celf 'Astudiaeth o Goed # 5', ar gyfer wal 3x5 metr. Mae ei gwaith yn aml yn cael ei ysbrydoli gan natur, goleuni ac egni.

Mae hi wedi bod yn gweithio fel athro celf, cyfryngau a dylunio mewn ysgolion ac mewn addysg bellach. Mae wedi ysgrifennu'r llyfr i blant 'Regnbuedragen', y mae ei gŵr, Roderic, wedi ei ddarlunio'n hyfryd. Mae hi bellach yn byw

yn ne Norwy ar Ynys Tromoy, ychydig y tu allan i Arendal, ynghyd â'i gŵr a'u mab 17 oed, Valentin. Yma hefyd mae ganddynt stiwdio agored ac oriel gelf, Hove Atelier (www.hoveatelier.com). Dyma le mae'r pâr o artistiaid yn cynhyrchu ac arddangos eu gwaith. Roedd Janne yn aelod o'r RPS, y Contemporary group, a chymerodd ran mewn arddangosfeydd grŵp yng Nghanolfan y Barbican yn Llundain, oriel yr Octagon yng Nghaerfaddon a Chanolfan Ffotograffiaeth y Picture House Centre yng Nghaerlŷr. Mae hi bellach yn aelod o'r FFF, y sefydliad Norwyaidd ar gyfer artistiaid ffotograffig proffesiynol.

Mae Dr Pete Davis, a oedd yn fentor ar Jannes wrth iddi astudio ffotograffiaeth ddogfennol yng Nghasnewydd, wedi ysgrifennu am ei gwaith 'Astudiaeth o goed': "Gall coedwigoedd ymddangos yn ddi-amser ac eto maent yn esblygu ac yn newid yn barhaus. Mewn rhai lleoliadau, prin fod hyn i'w weld dros genedlaethau lawer, hyd yn oed milenia, tra gall ymyrraeth ddynol a ffactorau ecolegol naturiol newid a difetha amgylcheddau coediog eraill ar amrantiad. Mae llawer o goedwigoedd yn hir eu hoedl am eu bod yn adnodd defnyddiol i'r boblogaeth frodorol, sefyllfa a allai fod wedi bodoli ar gyfer rhai ardaloedd o goetir ers enciliad y rhewlifant a orchuddiai'r rhan fwyaf o ogledd Ewrop hyd at 10,000 mlynedd yn ôl. Mae'r ymdeimlad hwn o hanes a pharhad yn treiddio i lawer o'r llofydd hyn ac yn cynnig adnewyddiad ysbrydol ac ysbrydoliaeth greadigol ar gyfer ffotograffydd creadigol sensitif fel Janne Rebecca Read.

Mae'r mythau a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â choedwigoedd mor amrywiol â'u cynrychiolaeth artistig hanesyddol ac maent yn agored i ystod eang o ddehongliadau creadigol yn ôl ymateb yr artist unigol. Mae gwaith Janne yma yn seiliedig ar ei dealltwriaeth a'i pherthynas gydymdeimladol â'r mannau hyn a'i defnydd craff o gyfeiriadaeth a thechnegau ffotograffig hanesyddol. Mae hi wedi llwyddo i asio ynghyd hanes yr amgylchedd tirwedd penodol hwn a'i dewis o gyfrwng creadigol. Mae hyn wedi arwain at gorff o waith sydd, er yn gyfoes ac 'o'r ennyd hwn', hefyd yn adlewyrchiad o natur oesol treigl amser yn y cyfryw fannau ac yn fynegiant o'i syniadau a'i theimladau hi ei hun am le sy'n amlwg yn arbennig iddi ".

Roderic Read

Ganwyd Casnewydd 1956

Cwrs Sylfaen Casnewydd 1977/78

Coleg Celf Casnewydd, Celfyddyd Gain 1978/81

Coleg Celf Bryste 1981/83

Rwy'n gweithio'n bennaf drwy dynnu lluniau â siarcol, paentio olew a gwneud printiadau. Mae gennyf ddiddordeb yn y chwarae rhwng goleuni a chysgodion, y gellid eu portreadu mewn dinas neu dref a hefyd yn y dirwedd, megis Parc Cenedlaethol Raet yn Hove, yn Norwy, lle rwyf bellach yn byw ac yn rhedeg stiwdio ac oriel agored, Hove Atelier, gyda'm hartist o wraig, Janne Rebecca, Read. Darluniais y gyfrol 'Regnbuedragen', a ysgrifennwyd gan fy ngwraig.

Er bod fy ngwaith celf i raddau yn naturiolaid mewn mynegiant, tueddaf i gyfansoddi fy lluniau a chreu ymdeimlad theatrig lle dymunaf gyfleu'n emosiynol lle sy'n ffinio rhwng ffantasi a realiti.

Rwyf wedi arddangos fy ngwaith yn Ewrop a Gogledd America mewn orielau megis yr Oriel Bortreadau Genedlaethol, Llundain, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Oriel y Mall yn Llundain, Oriel Tegnerforbundet yn Oslo a Senedd Ewrop yn Strasbourg. Oriel Cricket Hill Efrog Newydd.




Roderic Read

Gwobrau

Gwobr Gwneuthurwyr Printiadau Cymru,

Enillydd ar Wobr Cleveland yn y Deyrnas Gyfunol,
Biennale Arlunio Rhyngwladol,

Arddangosfa Gelf Flynyddol De Norwy, Gwobr Deithio



Claire Sinnott



Claire Sinnott

Beth dwi wedi bod yn ei wneud ...

Gweithiais fel garddwr am y flwyddyn gyntaf, fwy neu lai, ar ôl gadael y coleg (bûm yn gweithio gwyliau haf yn fy mharc lleol pan yn fyfyrwr), wrth wneud gwaith comisiwn achlysurol - portreadau yn bennaf - cyn cael swydd mewn ysgol breifat, i ddechrau fel athro tecstilau ac ar ôl dwy flynedd (ac ymddeoliad yr athro celf) fel athro Celf. Fe wnaethon nhw hefyd yn garedig (neu'n amheus) roi'r dosbarthiadau Addysg Grefyddol i blant 12 oed i mi... Roeddwn wrth fy modd yn gweithio ac yn ymgysylltu â phobl ifanc a oedd, er gwaethaf ei bod yn ysgol breifat, yn dod o bob math o gefndiroedd. Gweithiais yno am 10 mlynedd cyn i mi deimlo'r angen am newid.

Tra roeddwn yno, gweithiais hefyd i Goleg Abertawe fel tiwtor yn rhedeg dosbarthiadau nos i oedolion, Tecstilau yn bennaf, (ac yn y pen draw Technegau Paentio ar gyfer Dylunio Mewnol - roedd rhai dosbarthiadau mewn ardal

gymharol ddifreintiedig ac roedd y mynychwyr wedi eu hysbrydoli - ac yn ysbrydoli), gan barhau wrthi am o leiaf 20 mlynedd.

Ar ôl i mi adael yr ysgol breifat roeddwn yn gweithio'n rhan amser (wrth ddal i addysgu gyda'r nos), fel hyfforddwr Celf a Chrefft mewn canolfan ddydd leol, a hefyd yn gweithio ar fy liwt fy hun fel dylunydd gwisgoedd, yn gwneud ffrogiau priodas a morwynion a gwisgoedd achlysur arbennig ac yn dal i wneud y portread achlysurol.

Yna cefais fy merch a threulio pum mlynedd gartref gyda hi, er i mi lwyddo i gael amser i ddilyn cwrs/ennill cymhwyster mewn Technegau Dylunio Mewnol pan ddechreuodd hi yn y feithrinfa yn 3 (ac ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach dysgais y pwnc hwnnw i oedolion mewn dosbarthiadau nos a phrynhawn) a gweithio o gartref fel Dylunydd Tecstilau llawrydd. Ar ôl iddi ddechrau'n llawn amser, fe wnes i hefyd wirfoddoli yn ysgol fy merch, gan gymryd grwpiau o blant 5-6 oed ar gyfer Celf a Chrefft. Arweiniodd hyn yn y pen draw at waith rhan amser yn yr ysgol fel C.A. un i un gyda bachgen ifanc ag anawsterau ymddygiad (yn y diwedd fe wnes i o ganlyniad, gwrs cwnsela dwy flynedd ym Mhrifysgol Abertawe yn arwain at HND), ac fe wnes i barhau i weithio gyda phlant ag anghenion addysg arbennig am tua 12 mlynedd, hefyd yn dal i ddod o hyd i amser i wneud Tecstilau a dysgu Celf mewn ysgol uwchradd leol. Fodd bynnag, arweiniodd y pwysau yn y system addysg bresennol fi i edrych am ddewisiadau eraill.

Dwi nawr yn gweithio'n rhan amser mewn theatr gyfagos, sy'n amrywiol a diddorol ond yn rhoi amser i mi wneud gwaith creadigol arall (pan fydda i'n ddigon trefnus!) megis portreadau, gwaith tecstilau, a gwneud gemwaith ...

... Gobeithio body gorau eto i ddod!



J Stanton



Jane Stanton-Wilson

Ar ôl cwblhau ei chwrs Sylfaen Celf yn Derby, mynychodd Jane Stanton Goleg Celf Casnewydd gyda diddordeb brwd mewn arlunio, darlunio a gwneud printiadau. Ei dylanwadau pennaf oedd Tom Hughes, Terry Illot a Gillian Clarke, ynghyd â Chasnewydd ei hun a'i dociau. Graddiodd o'r cwrs dylunio graffeg gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf ac aeth ymlaen i astudio Darlunio am dair blynedd yn y Coleg Celf Brenhinol yn Llundain, lle cafodd ei dysgu gan Syr Quentin Blake, Dan Fern, Sheila Robinson, Peter Brookes a Lynda Kitson. Tra yn y Coleg enillodd gystadlaethau ddarlunio y Folio Book Society, Ysgoloriaeth Deithio Brian Robb i Fenis a dyfarnwyd preswylid iddi yn y Cité Internationale des Arts ym Mharis, gan raddio yn 1983.

Ar ôl gadael yr RCA, bu'n gweithio fel arlunydd a gohebydd gweledol yn ymgymryd â phreswylfeydd yn Nociau'r Llynges Frenhinol, Chatham, Gwaith Locomotifau Rheilffyrdd Prydeinig yn Swindon ac fe'i penodwyd gan Bwyllgor Cofnodion Artistig yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd i gofnodi dyddiau olaf Corfflu Brenhinol y Merched. Cymerodd ran yn yr arddangosfa; "Documenting Modern London" ac ennill Gwobr Gordon Fraser am Groniclo yn Amgueddfa Llundain.

Treuliodd nifer o flynyddoedd yng nghampfa focsio Terry Lawless yn Nwyrain Llundain, gan arwain at arddangosfa yn Oriel Morley, Llundain, gyda chomisiynau i ddilyn yng Nghlwb Criced Swydd Derby.

Mae gan Jane waith yng nghasgliadau cyhoeddus yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd yn Llundain, Amgueddfa Llundain, yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol, Oriel Gelf Towner yn Eastbourne a Chymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Lloegr yn Gillingham. Mae wedi bod yn destun dwy arddangosfa adolygol, yn Amgueddfa ac Oriel Derby, ac ym Mhrifysgol Derby gyda'r "Defnydd Creadigol o Ddigwyddiadau Go Iawn" arddangosfa unigol o waith croniclo.

Law yn llaw â hyn, bu'n gweithio fel darlunydd ar ei liwt ei hun ar gyfer llyfrau Penguin, David Chipperfield Architectural Associates, Llyfrau Pandora, The Illustrated London News, y London City Ballet, S4C, Stephenson Harwood Solicitors, Llundain, Mitchell, Beazley, Bloomsbury Books, Gibson Hamilton Partnership Loughborough, Ambit a The London Magazine.

Yn Llundain, bu'n darlithio'n rhan amser yn Ysgol Gelf Chelsea a Choleg Polytechnig Brighton cyn dechrau ar benodiadau yn gyntaf yng Ngholeg Middlesex ac yna'r Liverpool Polytechnics. Ym 1992, symudodd o Lundain gyda'i theulu i addysgu Dylunio Graffeg ym Mhrifysgol Derby, gan sefydlu cwrs BA Darlunio ac yna darpariaeth Meistri mewn Cyfathrebu Gweledol.

Yn 2009, cafodd ei dyrchafu'n Bennaeth Dylunio ac mae bellach yn Gyfarwyddwr Cwrs ar Ysgol y Celfyddydau yn Derby. Mae hi'n chwarae rôl allweddol

mewn addysg gelf a dylunio rhyngenedlaethol yn y Brifysgol fel Rheolwr Prosiect gyda Choleg Celf a Dylunio Vakalo yn Athen, Die Spengergasse, Fienna ac mewn lleoliadau amrywiol ledled Tsieina.

Mae Jane wedi cyhoeddi dau lyfr ar arlunio ac mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud â rôl arlunio a gwaith ymchwil gweledol yn y broses ddylunio ynghyd â rhaglenni dogfen a chroniclo cymdeithasol y mae hi'n gweithio arnynt ar gyfer prosiect yn ymwneud â Dinas Derby. Mae'n adolygydd ar gymheiriaid ac wedi ysgrifennu nifer o erthyglau blaenllaw ar gyfer cylchgrawn Cymdeithas y Darlunwyr sef "VaroomLab". Yn ddiweddar cyfrannodd bapur i symposiwm am y peintiwr swrrealaidd o Derby; "Marion Adams: A Singular Woman" gydag Amgueddfa ac Oriel Gelf Derby. Mae'n gweithio fel ymgynghorydd ac arholwr allanol mewn llawer o sefydliadau sydd wedi cynnwys; Prifysgol y Celfyddydau Llundain, Prifysgol y Celfyddydau Bournemouth, Central Saint Martins Llundain, Duncan of Jordanstone College of Art, Prifysgol Cymru, Prifysgol Coventry, Prifysgol Brighton, Coleg Celf Henffordd, Prifysgol Loughborough, Southampton Solent, Ysgol Gelf Norwich, Prifysgol Swydd Gaerloyw a Phrifysgol Anglia Ruskin.



Sally Wallis

Cefais fy ngeni i deulu o arlunwyr a phobl ecsentrig (ac artistiaid ecsentrig). Fy ail gefnder oedd Elwin Hawthorne o'r grŵp Camden a oedd yn cynnwys Walter Salert, artist y bŵm yn hoff o'i waith erioed. Am y 6 mlynedd cyntaf roeddwn yn byw mewn hen dŷ blêr gyda fy nheulu a'm taid a nain, tŷ oedd yn llawn celf, llyfrau a phetheuach a gasglwyd. Datblygais ddiddordeb penodol yn y macabr a'r bisâr.

Er yn academiaidd dalentog roeddwn yn fyfyrwr diog oedd yn well ganddi dynnu llun. Enillais ysgoloriaeth i astudio yn Ysgol Haberdasher i Ferched yn Nhrefynwy ond gwrthodais fynd gan nad oeddwn yn ffansi'r syniad o ysgol breswyl.

Roeddwn i'n meddwl y byddwn i'n gwneud cwrs ffasiwn a dylunio yng Ngholeg Celf Casnewydd, ond penderfynais ar Gelfyddyd Gain (Paentio) a dechrau astudio yno ym 1976. Ar ôl cwblhau'r Cwrs Sylfaen fe wnes i ddechrau ar BA Celfyddyd Gain, ond roedd gen i broblemau iechyd corfforol a oedd yn ei gwneud yn amhosib gafael mewn brwsh, a phroblemau iechyd meddwl difrifol. Dychwelais i'r coleg ond yn y pen draw bu'n rhaid i mi adael. Roedd methu tynnu lluniau a phaentio fel y dymunwn yn golygu y rhoddais y gorau i gynhyrchu celf.

Yn ystod y blynyddoedd dilynol, fe wnes i gymryd rhan yn y sîn gerddoriaeth leol a rheoli nifer o fandiau lleol, o ffync jazz i blues trwy grwpiau sbîd metel, teithiais i bob cwr o'r wlad, a chael llawer o hwyl. Fy allfa artistig oedd dylunio a gwneud fy nillad fy hun, gwneud gemwaith, crosio a chrefftau eraill. Es i hefyd i gigs, gwyliau, a phartïo yn galed!

Ewch yn eich blaen yn gyflym i ddiwedd y 1990au ac roeddwn wedi cyfarfod y dyn y byddwn yn ei briodi yn ddiweddarach. Prynodd gamera compact HP i mi ac argraffydd a dechreuais gymryd lluniau. Fe wnes i ganfod ffordd newydd o fynegi fy hun. Canfûm mai fy niddordeb oedd cipio'r anarferol, yr hyn a daflwyd o'r neilltu, yr hyn a anwybyddwyd. Roeddwn yn byw ym Mhillgwenlli ac yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cymunedol - megis cadw'r ganolfan gymunedol leol ar agor, prosiectau a digwyddiadau, gan gynnwys y cylchgrawn Pill Pulse fel ei ffotograffydd swyddogol. Pan ddaeth y cylchgrawn i ben, mabwysiadais dudalen Facebook y Pill Pulse ac rwy'n dal i redeg hwnnw. Uwchraddiais fy nghamerâu dros amser, dysgu ychydig o Photoshop, a chadw i dynnu lluniau.

Mae fy arddull wedi esblygu ac rwyf bob amser yn cario camera gan nad wyf byth yn gwybod pryd y byddaf yn gweld pwnc yr wyf am ei gipio. Gan fod fy anabledd wedi gwaethygu, rwyf wedi gorfod torri nôl ar lawer o'r ymwneud corfforol â materion lleol, ond rwy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu gyda materion ac ymgyrchoedd lleol. Dydw i ddim yn teimlo'n rhwystredig mwyach oherwydd methu â chynhyrchu celf drwy arlunio a pheintio. Dwi'n gallu mynegi fy hun trwy ffotograffiaeth.

Ger

'Mae prydfferthwch yn llygad y sawl sy'n gweld - tynnwch o allan gydag Optrex.

priodolir i Spike Milligan

Gerard Whyman

1965 Ganed ym mis Ebrill yr un wythnos ag yr oedd Cliff Richard yn rhif un gyda 'The Minute You're Gone'. Pe byddai wedi bod wythnos yn ddiweddarach, buaswn wedi dod i'r byd gyda 'Ticket to Ride' y Beatles ar y brig. Dydw i erioed wedi bod yn cŵl.

1970-76 Blynnyddoedd ysgol gynradd. Cofio cael stŵr am ddefnyddio pensil heb fin a defnyddio brwsh paent mewn modd chwit chwat wrth baentio. Arwyddion cynnar o artist ar waith.

1976-84 Blynnyddoedd ysgol uwchradd. Wedi ennill swp o lefelau 'O' cyffredin a Lefelau A nad oedd o safon uchel, Datblygu diddordeb mewn Celf er gwneud Celf lefel A.

1984-85 Cwrs Celf/Dylunio Sylfaen yng Ngholeg Addysg Uwch Gwent. Sylfeini gweddol sigledig ar y gorau ac o ganlyniad cymerwyd blwyddyn allan i lunio portffolio. Darganfod y gallwn dynnu llun, lluniau pensaernïol sy'n edrych yn eithaf da.

1986-89 BA Dylunio Graffeg, Clarence Place. Crafu digon at ei gilydd i gael gradd 2/2. Y prif beth a ddysgais yw nad oedd gyrfa fel dylunydd graffeg i fod imi.

1990 Fodd bynnag, nid oedd hynny'n fy atal rhag gweithio fel un. Roeddwn yn y South Wales Argus felly efallai nad yw hynny'n cyfrif.

1991-93 Sgriblo, braslunio, crafu o gwmpas i gael gwaith darlunio gan geisio canfod cyfeiriad ond prin iawn oedd y llwyddiant. Treulio llawer o amser yn darllen llyfrau seicoleg, yn ceisio dod o hyd i gyfeiriad ac ati.

1994 Cael y cartŵn cyntaf wedi'i gyhoeddi yn The Spectator (sef. 1828). Darganfod fy mod i nawr yn gartwnydd. Hefyd yn darganfod gallu i ysgrifennu 'puns' drwg iawn.

1995 Ceisio yn ofnadwy o galed i gael mwy o gartwnau wedi'u cyhoeddi. Tynnu hyn a'r llall yn weddol hafal o ran mesur.

1996 Cael ail gartŵn wedi ei gyhoeddi yn The Oldie. Does dim stopio fi nawr.

1997 - Ymddangosiad cyntaf yn Private Eye, ar noswyl buddugoliaeth etholiad Llafur Newydd. Dechrau rhediad o ymddangosiadau yn Punch a ail-lansiwyd, dros 50 o gartwnau ynddo rhwng 1997 a 2001. Dechrau gwerthu gwaith celf gwreiddiol yn Oriel Gartŵn Llundain. Ymddangosiadau cartŵn rheolaidd mewn cylchgronau silff



isel, canol ac uchaf mewn teitlau amrywiol o Cat World, New Statesman, New Humanist a Fiesta. Gwaith a gomisiynir yn cynnwys gwawdlunio. Arddangos cartŵn mewn sioe wleidyddol yn yr OXO Tower, Llundain. Dechrau mynd i ddosbarthiadau darlunio bywyd sy'n rhywbeth y ceisiais barhau ag ef dros yr ugain mlynedd diwethaf.

2003-05 Cartwnydd ar gyfer ymgyrch hyrwyddo M&G Investments - diffyg gwybodaeth ariannol lwyr yn ddim rhwystr.

2003 - Ymunodd â chyfnodolyn masnach Premier Bus and Coach Operator, fel cartwnydd golygyddol wythnosol, sydd bellach yn agosáu at 17 mlynedd gyda nhw. Bellach yn gallu tynnu llun o Routemaster ar fy nghof o ganlyniad.

2005-2011 Cyfrannwr cartŵn rheolaidd i gylchgrawn Reader's Digest. Ymuno â Grŵp Arlunio Caerdydd er mwyn helpu i ddatblygu fy ngwaith celf mwy 'difrifol'. Arddangos gyda nhw yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd, 2009 mewn sioe yn seiliedig ar barciau Caerdydd ac arddangosfa o waith yn seiliedig ar thema lenyddol yn Oriel Gelf y Barri, 2011. Dylunio a phaentio cerfluniau dreigiau ar lwybrau Super Dragon Casnewydd yn 2010 a 2012. Hunan-gyhoeddi detholiad o fy nghartwnau mewn cyfrol gasgliad 'Oddly Distracted'.

2013 - Cymryd gofod stiwdio yn Robbins Lane Studios, Casnewydd, paentio tirlun, pensaernïol a darnau ffigurol mewn olew ac acrylig.

2016-17 Cwblhau TAR (PcET) ym Mhrifysgol De Cymru Arddangosfa unigol 'Casnewydd Hen a Newydd' yn Nhŷ Barnabas, Casnewydd yn dangos arddulliau cyferbyniol o bensaernïaeth Casnewydd gyda darluniau llinell a golchad a phaentiadau olew ac acrylig. Ymuno â'r Gymdeithas Ddarlunio Bensaernïol fel aelod llawn.

2019 Arddangosfa 'Split-Person-artily' yn Cwtsh, Stow Hill, Casnewydd yn dangos fy netholiad amrywiol o fy nghartwnau, paentiadau a darluniau. Nid yw'r 'puns' yn gwella o gwbl ac rwy'n dal i geisio canfod fy nghyfeiriad ...

Gerard Whyman www.gerardwhyman.com



George Wilson

Fel y rhan fwyaf o'm cyfoedion, ymunais â'r cwrs Ffotograffiaeth Ddogfennol fel myfyriwr aeddfed, ar ôl treulio dros ugain mlynedd o fywyd gwaith mewn swyddi amrywiol: technegydd labordy; rheolwr ffordd; postmon; peiriannydd ffôn i enwi ond ychydig. Roedd ffotograffiaeth wastad wedi bod yn ddiddordeb a phan gododd y cyfle, fe wnes i gais i'r cwrs, ac roeddwn yn lwcus i gael fy nerbyn.

Pan adewais Gasnewydd a mynd i fyw yng Nghaint gyda Gill, cymerais swydd dros dro mewn arcêd ffair. Yn ystod y ddwy flynedd a dreuliais yno, llwyddais i gasglu cryn dipyn o ffotograffau o'r cymeriadau a'r gweithgareddau yn y gymuned fach hon.

Gadewais yr Arcêd yr un pryd ag y rhoes Gill y gorau i'w swydd hi, yn fuan cyn i ni gael ein mab, Alex. Yn ystod 1982, ceisiasom adeiladu gwaith llawrydd, a sefydlu ein busnes ein hunain y flwyddyn ganlynol. Rhannwyd rhai cleientiaid drwy waith a is-gontractiwyd gan asiantaethau hysbysebu: ffotograffiaeth ddiwydiannol gan gynnwys Sheerness Steel, cwmnïau papur y DG, cwmnïau petroliwm ac yn y blaen; gwaith cysylltiadau cyhoeddus; oll ar y cyd â'm gwaith dogfennol fy hun mewn ysgolion, ysbytai a chymunedau a gyflwynwyd gennyf i gyhoeddiadau amrywiol gyda pheth llwyddiant.

Pan ddigwyddodd y chwyldro digidol a daeth yn amlwg y byddai'n rhaid i ni'n dau ymuno ynddo neu fynd allan o fusnes, dysgais raglenni cyfrifiadurol safonol y diwydiant i mi fy hun a daeth y ddau ohonom yn weddol gymwys, yn gyntaf ar PC yna Mac.

Daeth ffotograffiaeth broffesiynol yn faes lle'r oedd hi'n gynyddol anodd cael gwaith: prynodd pawb camera digidol ac roeddent yn tynnu eu lluniau eu hunain. Roeddwn i'n dal i gyflwyno gwaith i Alamy a thynnu lluniau, ond roedd diwydiannau lleol y bûm i'n gweithio iddyn nhw wedi dechrau methu a chau.

Tua diwedd ein cyfnod mewn busnes, llwyddais i helpu Gill ar yr ochr ddylunio, gan lunio cyhoeddiadau misol, nes i'r gwaith hwnnw gael ei wneud yn fewnol gan yr asiantaeth yn y pen draw. Pan aeth Gill i addysgu a chreu rhwydweithiau gyda'r ysgol gelf leol, cododd gyfle i dechnegydd cyfrifiaduron, a chefais fy hun yn y swydd, yn rhannu swydd gydag artist digidol ifanc, a gweithiais yma'n rhan-amser tan 2008, pan arweiniodd y cyntaf o nifer o doriadau staffio i mi golli fy swydd yn yr hyn sydd bellach yn Brifysgol. Yn ystod ein hamser yn y byd addysg, galwyd arnaf yn aml i dynnu ffotograffau o wahanol brosiectau yn yr Ysgol Gelf a gwnes fy ffilgm gyntaf yn dogfennu digwyddiad allgymorth.

Rwyf wedi arddangos yn lleol sawl gwaith: arddangosfa o luniau du a gwyn analog o'r agwedd lai rhamantus ar fywyd mewn tref glan môr; 'Cardiau Post o'r Glannau' arddangosfa o brintiadau cardiau post lliw digidol, eto'n herio cysyniadau traddodiadol o lan y môr; ac arddangosfa o waith y llynedd a oedd yn ei hanfod yn diweddarur arddangosfa gyntaf ac yn cyfosod y delweddau.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, cynhyrchodd sgwrs ar hap rhwng dau ffrind ddiddordeb annisgwyl yn fy nghasgliad o ffotograffau arcêd. Roedd myfyriwr ffotograffiaeth ôl-raddedig ym Mhrifysgol Eglwys Crist Caergaint yn chwilio am ddelweddau o ddiwylliant glan môr yn gysylltiedig â'i waith, a chysylltodd â mi ynghylch fy ffotograffau. Bu'n chwilota drwy'r holl negatifau (cannoedd) gan ddigido'r delweddau. Mae i'r rhain bellach y teitl ffurfiol 'Casgliad George Wilson' ac maent yn rhan o SEAS (Archifdy De Ddwyrain Lloegr o Ffotograffiaeth Ddigidol), er mwyn hysbysu 'ymchwilwyr am ddiwylliannau arcêd a esgeuluswyd hyd yma'. Mae hyn yn cysylltu'n agos â gwaith Dr Alan Meades, ymchwilydd yn CCCU. Yr unig gasgliad arall hysbys o waith o'r fath yw un gan y ffotograffydd arobryn Ira Nowinski ac fe'i cedwir ym Mhrifysgol Stanford yn yr Unol Daleithiau yn cynnig cymhariaeth.

Dr Gillian Wilson (gynt Harris)

Dechreuaf drwy restru fy swyddi gyrfaol, a thirnodau i roi cyd-destun i'm crynodeb o effaith fy addysg Gelf ar fy mywyd, gan mai dyma yr ydym yn ei ddathlu ac sydd dan sylw. Yn gyntaf oll, cwrddais â George yng Nghasnewydd ac mae wedi bod yn bartner i mi fyth ers hynny. Wrth adael Casnewydd, symudon ni i Gaint, lle cyfleus i fod yn agos at deuluoedd y naill a'r llall ohonom.

1980: Un wythnos fel ysgrifennwr arwyddion ar gyfer y Cyngor: Dwy flynedd fel artist papur newydd lleol.

1982-2003 Pan aned ein mab Alex yn 1982, fe wnaethom sefydlu busnes o dan y Cynllun Lwfans Menter, sef menter y llywodraeth i alluogi pobl ddi-waith i gael swydd hunangyflogaeth. Rhedodd George a fi ein busnes gan gynnig dylunio graffeg a ffotograffiaeth: buom yn gweithio gyda'n gilydd ar rai prosiectau ac roedd gennym hefyd sylfaen gleientiaid ar wahân.

Roedd ein cyfnod yn cwmpasu'r newid o weithio mewn analog i ddigidol ac fe addasom yn unol â hynny. Yn y pen draw arweiniodd hyn at golli gwaith, gan y gallai mwy o asiantaethau ddarparu eu cyfleusterau dylunio mewnol eu hunain. Ar yr ochr gadarnhaol, fel dylunydd sy'n gyfarwydd â rhaglenni safonol y diwydiant, llwyddais i sicrhau gwaith addysgu sesiynol yn Sefydliad Celf a Dylunio Caint - Prifysgol y Celfyddydau Creadigol (UCA) erbyn hyn. Ganwyd ein merch Kate yn 1991.

1998-2018: Yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg, gweithiais fel Darlithydd/Uwch Ddarlithydd ynghyd ag amrywiol rolau tameidiog yn cefnogi'r agenda cyfranogiad ehangach mewn gwaith allgymorth gyda HEFCE ac Aimhigher. Astudiais hefyd ar gyfer gradd Meistr (1999-2001) wedyn Doethuriaeth (2009-2012) mewn addysg i gefnogi fy addysgu. Cwestiwn ymchwil: A yw ysgrifennu academiaidd yn ategiad priodol i ymarfer Celf a Dylunio?

2007-2009: Ymgymerais â gwaith ymgynghorol fel Hyfforddwr Arweiniol Diploma Creadigol a'r Cyfryngau gydag Ysgolion Arbenigol ac Academiâu; Hyfforddwr Sgiliau Gweithredol gyda'r Rhwydwaith Dysgu a Sgiliau ac awdur ar gyfer Pearson Education.

Gillian Wilson



2007-2013: Cydlynodd Mynediad ac Allgymorth (0.6 FTE). Yn y rôl hon, sefydlais ganolfan gelfyddydau gymunedol ym Mae Herne yn cynnig gofodau stiwdio ar gyfer artistiaid newydd, dau ofod oriel, ystafelloedd cyfarfod a gweithdai. Daeth hwn yn fuan iawn yn gyfleuster lleol a oedd yn cael ei redeg yn annibynnol ac mae'n ffynnu. Fe wnes i aros fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd tan 2018.

2015-2018 Arweinydd Uned ar gyfer Ymchwil ar gwrs MA mewn Addysg Celfyddydau Creadigol i'r UCA

2018: Gadewais UCA i ddilyn fy ymarfer fy hun a chefais fy arddangosfa unigol gyntaf ym mis Gorffennaf 2019 yn yr orielau a sefydlais.

2019: Ymuno â'r Margate School (TMS) 'ysgol gelf ryddfrydol annibynnol ar gyfer yr 21ain Ganrif'. Addysgu uned o'r enw 'Memoire' sef ymchwil myfyrwyr a chronicl myfyriol ar MA mewn Celfyddyd Gain (Celf, Cymdeithas, Natur). Achredir y cymhwyster gan L'École Supérieure d'Art et de Design le Havre-Rouen (ESADHaR).

Fel y person cyntaf yn fy ngheulu i gael gradd - hyd yn oed mewn Celf! - cefais gyfleoedd na allwn fod wedi'u rhagweld fel y cyflwynydd academiaidd digon cyffredin yr oeddwn pan adewais yr ysgol: roedd fy mam yn meddwl y byddwn i'n gwneud yn dda i fod yn ysgrifenyddes. Ers hynny rwyf wedi gweld cannoedd o bobl ifanc fel fi,

nad oes rhyw feddwl mawr ohonynt yn yr ysgol gyda disgwyliadau digon isel yn mynd ymlaen i redeg busnesau llwyddiannus neu i ennill bri yn eu maes. Mae addysg gelf yn newid bywydau.

I mi, fel mam sy'n gweithio, rhoddodd gyrfa ym maes celf y rhyddid a'r hyblygrwydd imi barhau i weithio a dal i gwrdd â'm plant o'r ysgol a bod o gwmpas petaent yn sâl. Ac i dreulio'r rhan fwyaf o'm dyddiau gyda George, hyd yn oed pan oedd weithiau ond ychydig oriau rhwng mynd i'r gwely a'r daith ddyddiol i'r ysgol. Wnes i erioed ddeffro yn ofni gwaith, sy'n rhywbeth gwerthfawr iawn. Dydw i erioed wedi bod tua phegwn uchaf fy maes, ond rwyf wedi mwynhau fy mywyd gweithio yn fawr iawn.

Nawr yn wleidyddol erbyn hyn, ar adeg pan fo diddordebau creadigol yn cael eu tanbrisio a'u tansilio mewn addysg prif ffrwd, mae angen i ni weiddi'n uchel iawn am yr hyn a enillwyd gennym fel unigolion drwy hyn, a'n cyfraniadau i gymdeithas a'r economi drwy ein gwaith.

Mae'r ysgol gelf ryddfrydol newydd ei sefydlu yr wyf wedi ymuno â hi fel tiwtor yn ddiweddar yn ceisio ail-greu model yr ysgol gelf yr oeddem yn ei hadnabod ac yn ei charu, gan wrthod gosod safoni, rheoleiddio a phrofi - sy'n nodweddu ein system addysg bresennol.8: Dechreuodd



Fiona Windsor gynt Watkins

Rwyf wedi bod yn ymwneud ag Addysg Gelf ac Addysgu gydol fy mywyd fel oedolyn.

Dechreuodd fy nghariad at y pwnc yn ystod fy addysg uwchradd, a barodd i mi ddilyn y cwrs sylfaen yn un ar bymtheg oed, yn Anecs Fairoak Ysgol Gelf Casnewydd yn 1976. O'r fan hon, fe wnes i symud ymlaen i Clarence Place i ddilyn gradd mewn Celfyddyd Gain o 1977-1980. Yma cefais y fraint fawr o gael fy nhwrtora gan rai fel John Selway, Ernie Zobole, Jack Crabtree a Keith Arnatt. Dyddiau hapus!

Roedd yr Ysgol Gelf fendigedig hon mor bwysig i dref Casnewydd, gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar gerddoriaeth, ffasiwn a chreadigrwydd yn gyffredinol. Roedd yn dod â phobl ddiddorol a'u bywydau diddorol i'r dref dosbarth gweithiol hon ac roedd hyn i gyd wedi cael effaith mor gadarnhaol ar yr economi a'r gwedd cymdeithasol sydd yn fy marn i bellach wedi ei golli.

Ar ôl graddio, es i ymlaen i gwblhau fy Nhystysgrif Addysgu Celf yng Nghaerdydd (safle Cyncoed) gan ennill fy swydd addysgu gyntaf yn 1981 mewn ysgol gyfun fawr iawn i ferched yn y Barri.


Sylweddolais yn fuan iawn mai dyma oedd fy ngalwedigaeth a chefais addysgu am 36 mlynedd mewn adran hapus a ffyniannus iawn ac rwy'n falch iawn o allu dweud fy mod wedi ysbrydoli llawer o'r bobl ifanc a addysgwyd gennyf, i fynd ymlaen a dilyn gyrfa ym myd Celf a Dylunio.

Yn ystod fy ngyrfa fel athro, roeddwn i'n ddigon lwcus i gael fy secondio ar y cwrs TAR Celf a Dylunio, lle'r oeddwn i, fel tiwtor, yn cynorthwyo ac yn arwain graddedigion i fynd ymlaen i fod yn athrawon Celf llwyddiannus.

Cymerais hefyd rôl safonwr TGAU Celf a Dylunio ar gyfer CBAC ac rwyf yn dal i weithio iddynt hyd heddiw, ond nawr fel arweinydd tîm, yn teithio o amgylch Cymru yn ymweld ag adrannau celf, yn cefnogi staff i gynnal safonau uchel y bwrdd, trwy ddarparu maes llafur amrywiol a chreadigol.

Drwy gydol y cyfnod hwn rwyf bob amser wedi ymweld ag orielau yn edrych ar gelfyddyd ledled y byd a byddaf wastad yn parhau i wneud hynny, gan gredu mai dyma sy'n bwydo enaid meddwl creadigol.

Ac felly at heddiw ... Rwyf bellach wedi "ymddeol" yn swyddogol, ond mae celf yn dal i fod yn agwedd bwysig ar fy mywyd. Mae'n bleser gennyf fod yn rhan o'r sioe hon sy'n dathlu gwaddol gwych Ysgol Gelf Casnewydd a'r weledigaeth sydd gan Amgueddfa



Julia Wolton


Wedi gadael Ysgol Gelf Casnewydd, yn 1980 ffodd Julia i Lundain.

Roedd ei phrofiad o weithio ar wyliau haf hir (sydd bob amser yn cael ei gofio fel gwyliau heulog) ar Faes Chwarae Antur yng Nghaerdydd wedi gyrru Julia tuag at ei swydd gwaith ieuencid gyntaf gyda'r "Winch". Wedi'i leoli mewn hen dafarn yn Swiss Cottage (lleoliad a sgwatiwyd gan bobl ifanc i ddechrau) bu'n gweithio fel gweithiwr prosiect mewn tîm cyfunol o ddeg, gan gylchdroi a rhannu rolau. Roedd hyn yn cynnwys gweithio yn yr Ysgol Rad, y Clwb Ieuencid, Maes Chwarae Antur, y Gweithdy Beiciau Modur, a mynychu cyfarfodydd wythnosol meithion ar brynhawn dydd Gwener, a ddaeth i ben dim ond ar ôl i'r tîm gyrraedd consensws ar bob penderfyniad.

Gan weithio gyda'r bobl ifanc, cefnogodd y tîm streic y glowyr, protestio yn erbyn y bom, ymwelodd â Chomin Greenham, a buont yn allweddol o ran cefnogi undeboli gweithwyr ieuencid a chymunedol yn Camden. Yn dilyn rolau fel Ysgrifennydd cangen a Chadeirydd, symudodd Julia ymlaen i fod yn aelod o Gyngor Gwethredu Cenedlaethol (NEC) yr undeb, gan feithrin cysylltiadau â Chiwba, a threfnu ymweliadau astudio i Havana.

Tra oedd yn y Winch, roedd Julia wedi cymhwyso fel gweithiwr ieuencid a chymunedol JNC ac wedi symud ymlaen i ystod o uwch rolau gwaith ieuencid yn gweithio i Awdurdodau Lleol ac elusennau. Fel uwch weithiwr ieuencid, bu Julia yn rhedeg clybiau ieuencid ar draws Llundain. Gan ddefnyddio ei sgiliau creadigol (a'r kudos o fod yn DJ gorsaf radio anghyfreithlon a chynhaliwr partïon warws yn ei hamser sbâr), fe ddarparodd raglenni celf i bobl ifanc a ddylanwadwyd gan gangiau. Roedd adegau cofiadwy yn cynnwys prosiectau seiliedig ar berfformiad dan arweiniad pobl ifanc "Rap's New Generation" ac "One Step Ahead"; Ffilmiau "As the City Sleeps" a "The Pirates of Coldharbour" a gyflwynodd y seren (a'r Cyfarwyddwr Ffilm arobryn erbyn hyn) Fabien Soazandry i fyd ffilm a phrosiect carnifal "Winds of Change".

Yn 2004, roedd Julia yn gweithio i gyngor Lambeth fel Arweinydd Tîm Canolfan Tref Brixton dros Ieuencid a Chwarae pan welwyd cyfres o ddigwyddiadau saethu anghueol rhwng gangiau yn Brixton, a'i harweiniodd i weithredu. Dechreuodd y rhaglen rhoi'r gorau i gangiau X-it (a gyd-gynhyrchwyd gan Julia a thîm o bobl ifanc a oedd ynghlwm â gangiau) yn 2004. Enillodd y rhaglen Wobr Gwasanaeth Cyhoeddus The Guardian am Wasanaethau i Blant yn 2007 pan roddodd cymheiriaid gwaith ieuencid o'r rhaglen dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar hynt pobl ifanc ddu a'r system cyfiawnder troseddol. Cyn dod yn ymgynghorydd ieuencid llawrydd yn 2012, hi oedd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Llundain dros Ymddiriedolaeth Brathay, lle arweiniodd ar ddarpariaeth rheng flaen ystod o raglenni ymyrraeth rhag gangiau ar draws Llundain.



Robert Wyatt

1977-1980 Coleg Celf a Dylunio Casnewydd
Cwrs Dylunio Graffeg Galwedigaethol.

1980-1982 South Western Printers, Caerffili
Swydd: Dylunydd Iau / Gweithiwr Celf
Gweithio i gwmnïau lleol a chenedlaethol yn ardal De Cymru.

1982-1984 Dragonfly Design, Caerdydd
Swydd: Dylunydd Iau / Gweithiwr Celf
Gweithio i gwmnïau lleol a chenedlaethol yn ardal Caerdydd.

1984-1989 Gilbert Advertising, Covent Garden, Llundain
Swydd: Dylunydd Graffeg / Gweithiwr Celf Yn gweithio i gwmnïau lleol a chenedlaethol gan gynnwys Toymaster ac Antiference.

1989-1992 AZ-TEC Designs, St Albans, Swydd Hertford
Swydd: Rheolwr Stiwdio ac Uwch Ddylunydd
Gweithio i gwmnïau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys JCDecaux ac Air. Dylunio ac adeiladu stondinau arddangosfa i Gulf Air yn bennaf yn y Dwyrain Canol ac India.

1992 – 2016 Wyattgraphics, Caerdydd, Cymru
Dylunydd graffeg hunangyflogedig yn gweithio i gwmnïau lleol a chenedlaethol yn bennaf o'r sectorau twristiaeth ac addysg. Paratoi cysyniadau a dylunio/ gwaith celf gan ddefnyddio QuarkXPress, InDesign, Illustrator, Photoshop, Dreamweaver a Flash. Cynnig rheolaeth argraffu ac argraffu fformatau digidol a mawr yn fewnol. Mae'r gwaith yn cynnwys deunydd ysgrifennu, taflenni, llyfrynau, llyfrau, gwefannau, hysbysebion, logos ac arddangosfeydd.

Gwefannau wedi eu cynhyrchu gan ddefnyddio HTML, Flash, PHP a chronfeydd data MySQL.

Mae cleientiaid yn cynnwys Asiantaeth Ieuenctid Cymru, parc gwyliau Trecco Bay a Dragonfly Teacher Training

Ar ei anterth, roedd gan y busnes cartref drosiant blyneddol o £250k a 2 aelod o staff cyflogedig.



2016 – Ymddeoliad yn galw. Dod i adnabod pobl Caerdydd fel gyrrwr taci a chwarae'r bas dwbl gyda Cherddorfa Casnewydd ac Eglwys Highfields yng Nghaerdydd.



Gillian Clarke

Gillian Clarke

Gillian Clarke, Bardd Cenedlaethol Cymru 2008-2016, Llywydd Tŷ Newydd, Canolfan Awduron Cymru. Yn 2010 dyfarnwyd iddi Fedal Aur y Frenhines am Farddoniaeth. Cyhoeddwyd ei Selected Poems gan Picador yn 2016, a Zoology gan Carcanet yn 2017. Bydd ei fersiwn hi o'r gerdd Gymraeg o'r 7fed ganrif, y Gododdin yn ymddangos gan Faber yn 2020. Mae'n byw ar dyddyn yng Ngheredigion, lle mae chwe acer newydd gael eu plannu â choed, ysbrydoliaeth ar gyfer cerddi newydd, a dyddiadur coetir.



David Hurn

“Mae bywyd, wrth iddo ymddangos o flaen y camera, yn llawn cymaint o gymhlethdod, rhyfeddod, a syndod fel fy mod yn ei chael yn ddiangen creu gwirioneddau newydd. Mae mwy o bleser, i mi, mewn pethau-fel-y-maent”

Wedi ei eni yn y DG, ond o dras Gymreig, mae David Hurn yn ffotograffydd a ddysgodd ei hun ac a ddechreuodd ei yrfa yn 1955 fel cymhorthydd yn Asiantaeth Reflex. Er ei fod yn ffotograffydd llawrydd, enillodd enw iddo'i hun yn gynnar gyda'i gronico ar chwyldro 1956 Hwngari.

Yn y pen draw, trodd Hurn ei gefn ar faterion cyfoes, gan ffafrio agwedd fwy personol at ffotograffiaeth.

Daeth yn aelod cysylltiol o Magnum yn 1965 ac yn aelod llawn yn 1967.

Yn 1973, sefydlodd yr enwog Ysgol Ffotograffiaeth Ddogfennol yng Nghasnewydd, Cymru. Ymddiswyddodd yn 1989. Ers hynny bu galw cyson arno i ddarlithio a gwneud gweithdai ledled y byd.

Yn 1997 Cydweithiodd ar werslyfr llwyddiannus iawn gyda'r Athro Bill Jay, *On Being a Photographer*, ers hynny nid yw'r llyfr erioed wedi bod allan o brint.

Ei lyfr ef, *Wales: Land of My Father*, sy'n wirioneddol adlewyrchu arddull a symbyliad creadigol Hurn. Prosiect hunan-gychwynol ydyw sy'n ceisio darganfod beth a olygir gan yr ymadrodd 'fy niwylliant'. Mae'n cynnwys sylwadau ar y newidiadau hynod sy'n digwydd yng Nghymru o 1970 hyd gyhoeddi'r llyfr gan Thames a Hudson yn 2000.

Mae gan David Hurn enw da yn rhyngwladol fel un o'r ffotograffwyr croniclo mwyaf dylanwadol ym Mhrydain. Mae ei brintiadau wedi eu caffael gan lawer o gasglwyr ac amgueddfeydd blaenllaw.

Yn 2016, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Anrhydeddus y Gymdeithas Ffotograffig Frenhinol i David Hurn.

Mae'n parhau i fyw, a gweithio o'i gartref yn Nhyndyrn, Cymru,

Terry Ilott (1945 – 2019) - Biography


Cefais fy ngeni yn 1945 ac fe'm haddysgwyd mewn ysgolion yng Nghaerloyw. Rhwng 1963 a 1967 roeddwn yn fyfyrwr yng Ngholeg Celf swydd Gaerloyw, Cheltenham, i ddechrau ar y cwrs Cyn-Ddiploma (Sylfaen) ac yna ar y cwrs Diploma yn yr adran Gelfyddyd Gain (Paentio). Rhwng 1967 a 1970 astudiais yn y Coleg Celf Brenhinol ar gwrs M.A. Ôl-raddedig, hefyd yn yr Adran Celfyddyd Gain (Paentio).

Roedd y 1960au, sydd wedi ei ddefinio ers hynny gan feirniaid, yn gyfnod gwirioneddol anhygoel o ran creadigrwydd diwylliannol, optimistiaeth a chyffro. Yr oedd bod yn fyfyrwr mewn Ysgol Gelf Brydeinig ar yr adeg honno, i mi - ac i lawer o bobl eraill - yn brofiad rhyddhaol a newidiodd fywydau ac rwy'n cyfri fy hun yn hynod o lwcus. Ar ôl gadael y R.C.A., priodais ac, ar ôl rhywfaint o addysgu rhan amser, cefais swydd amser llawn yng Ngholeg Celf Casnewydd yn yr Adran Dylunio Graffeg, a oedd yn ddigon eangfrydig i benodi arlunydd Cain yn fwriadol. Fe wnes i fwynhau gweithio gyda myfyrwyr Dylunio Graffeg a Darlunio, a oedd bob amser yn llai 'pretentious' ac yn aml yn fwy creadigol a thalentog na'u cyfoedion Celfyddyd Gain!

Wrth addysgu, roeddwn bob amser yn parhau â'm gwaith fy hun ac, er yn gydwytbodol ac yn delfrydu wrth ddymuno sicrhau bod profiad yr ysgol gelf mor gadarnhaol i'm myfyrwyr ag y bu i mi, roeddwn bob amser yn ystyried fy hun yn bennaf fel artist ac yn cyfiawnhau fy swydd fel Darlithydd drwy feddwl fy mod yn gwneud llai o niwed nag y gallai rhywun arall ei wneud yn fy lle!

Roedd gen i - ac mae'n parhau i fod gen i - agwedd braidd yn amwys tuag at y farchnad gelf ac i ddangos a gwerthu fy ngwaith. Gellir olrhain llawer o'm llwyddiant masnachol neu feirniadol yn ôl i'r ffaith fod Lynn Chadwick, y cerflunydd adnabyddus, a oedd yn byw yn lleol, wedi prynu fy arddangosfa Ddiploma gyfan ym 1967 ac roedd y gwaith (o leiaf y tro diwethaf yr edrychais!) yn dal ar waliau ei dŷ ysblennydd, lle mae ei fab Daniel yn byw erbyn hyn. O ganlyniad i hyn, cafodd fy ngwaith ei weld a'i gynrychioli am gyfnod, gan Marlborough Fine Art, a oedd hefyd yn asiantau i Lynn ei hun. Yn ystod ac ar ôl fy amser yn y R.C.A., bu Lynn a'i wraig, Eva, yn gefnogol iawn ac yn achlysurol yn parhau i brynu fy ngwaith. Ar ymweliad i ddangos rhai o'm lluniau y cyfarfûm â Mike Oldfield a brynodd rai darnau gen i hefyd ac yn ddiweddarach comisiynodd fi i ddylunio'r clawr ar gyfer 'Crises'.

Pan ddaw i'm gwaith fy hun, mae fy ysbrydoliaeth a'm themâu wedi bod yn eithaf cyson ers fy nyddiau'n fyfyrwr. Un o fy hoff ddyfyniadau yw un gan Albert Einstein a ddwedodd mai "Y profiad harddaf y gallwn ei gael yw'r dirgel. Dyma'r emosiwn sylfaenol sy'n sefyll wrth grud celfyddyd wirioneddol a gwir wyddoniaeth". Mae'r ymdeimlad hwn â dirgelwch, ynghyd ag ansawdd mwy anifffiadwy barddoniaeth, bron bob amser yn bresennol yn y gwaith yr wyf yn ei edmygu fwyaf, fel paentiadau



Samuel Palmer, Vermeer a Caspar David Friedrich, caneuon Bob Dylan a ffilmiau Powell a Pressburger a Stanley Kubrick. Cysylltir yr ymdeimlad hwn o ddirgelwch hefyd â'r syniad o'r 'aruchel' fel y'i deallir gan yr arlunwyr rhamantaidd (paentwyr, awduron a chyfansoddwyr) a ysbrydolwyd gan fath o ryfeddod a syndod yn wyneb Natur.

Os yw fy mhaentiadau yn dywyll (a gall rhai pobl ddweud eu bod nhw!) mae hynny oherwydd fy mod yn cymryd golwg braidd yn besimistaidd ar yr hil ddynol a'i alluoedd a'i diffygion. Pan fydd pobl yn sôn am achub y blaned, yr hyn maen nhw'n ei olygu mewn gwirionedd yw achub yr hil ddynol. Yn wir, rwy'n credu y byddai'r byd yn lle llawer mwy prydferth hebom ni ac y byddai'n gwella'n fuan petaem yn diflannu dros nos. Er hyn i gyd, dydw i ddim mewn gwirionedd yn besimist llwyr, a hyd yn oed yn fy lluniau tywyllaf, mae llygedyn o obaith fel arfer. Y peth arall i'w ddweud am fy lluniau yw nad ydw i'n gwneud llawer ohonyn nhw - byddai chwech mewn blwyddyn yn llawer. Mae'n debyg fy mod i o'r farn bod y byd eisoes yn rhy llawn o lygredd gweledol ac y byddai'n well gennyf beidio ag ychwanegu ato oni bai fod gennyf reswm da dros wneud hynny.

Gwaith mewn casgliadau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys:

Lynn Chadwick

Andrew Lloyd Webber

Mike Oldfield

Oriel Hogarth, Awstralia

Victor Pasmore

Oriel HM, Brwsel

Amgueddfa Boymans, Rotterdam



Ron McCormick

Beirniad celf enwog, ffoto-hanesydd ac awdur
'Photography: A Concise History' a

'The Photography Book', Gwnaeth Ian Jeffrey y sylw hwn
mewn adolygiad ar gyfer cylchgrawn Creative Camera

"... Mae lluniau cain a gonest gignoeth Ron McCormick

yn crisialu'r metamorffosis hwn gyda chywirdeb manwl a
hunanfeddiant."

Mae Ron McCormick wedi ei gyhoeddi a'i arddangos ym
mhedwar ban byd ers 50 mlynedd. Mae ganddo gefndir
mewn celf gain a ffotograffiaeth ac mae wedi astudio
paentio yng Ngholeg Celf Lerpwl ac astudiaethau ôl-
raddedig yn Ysgolion yr Academi Frenhinol yn Llundain
rhwng 1968-71. Yn broffesiynol mae wedi gweithio
gydol y 1970au fel ffoto-newyddiadurwr croniclo ar
gyfer amrywiaeth o gyhoeddiadau gan gynnwys New
Society, Times Educational Supplement, Time Out,
Design Magazine a'r Socialist Worker Press ac mae wedi
chwarae rhan weithredol mewn materion cymdeithasol a
chymunedol ers y 1970au cynnar. .

Yn dilyn cyfnod fel Artist Preswyl yng Ngholeg Celf
Casnewydd, De Cymru (1977/78), cafodd wahoddiad i
addysgu yn yr Ysgol Ffotograffiaeth Ddogfennol enwog
yng Nghasnewydd, (erbyn hyn yn Brifysgol De Cymru) o
1979-97 lle sefydlodd a chyfarwyddo Arolwg Casnewydd
sef cofnod blynyddol o fywyd a gwaith yng nghymuned
Casnewydd. Ym 1983, penodwyd ef yn Gymrawd Ymweld
yn Sefydliad Technoleg Gorllewin Awstralia (Prifysgol
Curin, Perth erbyn hyn) a threuliodd ddeuddeg mis
yn tynnu lluniau o ardaloedd mwyngloddio Gorllewin
Awstralia cyn dychwelyd i addysgu yng Nghasnewydd.
Yn 1997 dechreuodd ar swydd academaidd newydd fel
Pennaeth Dylunio yn yr Ysgol Gelf ym Mhrifysgol Solent

Southampton lle sefydlodd hefyd Gasgliad Celf y Brifysgol
a dod yn guraður cyntaf arno 2001-14.

Bu'n gyfarwyddwr ar oriel yr Half Moon yn nwyrain
Llundain 1972-75 ac yn gyfarwyddwr sefydlu ar Oriel Side,
Newcastle o 1976-78. Yn 2002 sefydlodd Communimedia
sef menter ddylunio a chynhyrchu cymunedol a thros
gyfnod o 8 mlynedd, bu'n gweithio gyda Grŵp Cymunedol
Stow Hill yn lleol i gyhoeddi'r cylchgrawn chwarterol
ECHO, ar gyfer ardal Stow Hill, Casnewydd

Mae ei ffotograffau mewn casgliadau yn y Bibliothèque
Nationale; Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celf
Gwledydd Prydain, The Crafts Council, Cymdeithas Celf
Gyfoes Cymru, Ffotogallery Cymru, Curtin University
Perth Gorllewin Awstralia, Prifysgol Southampton Solent
ac Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd.

Mae wedi arddangos ei waith yn eang, gan gynnwys mewn
sioeau yn yr Institute of Contemporary Art, Whitechapel
Gallery, Serpentine Gallery, The Photographers' Gallery,
Barbican Gallery; MIT Cambridge USA; La Photo Galeria,
Madrid; Galerie im Lichtof, Stuttgart; Saidye Bronfman
Centre, Montreal; y John Hansen Gallery, Southampton a
Ffotogallery Caerdydd.

Dyma rai o'i gyhoeddiadau diweddar:

CRIMINAL ORNAMENTATION gan Yinka
Shonibare, Hayward Gallery Publishing, Llundain.
2019

THE DASH BETWEEN gan Rob Bremner. Cyh.
Bluecoat Books, Lerpwl 2018

(Cyfrannodd McCormick ragair i'r cyhoeddiad hwn)

CARROTFLY Ron McCormick, Cyh. Communimedia,
Casnewydd, Cymru 2018

Triumph Workers Lock-in. gan Ron McCormick, Pub
Café Royal Books, Southport 2018

Whitechapel Boy; a reading of the poetry of Isaac
Rosenberg. C. Searle & R. McCormick.

Cyh. Communimedia, Casnewydd, Cymru 2018

Whitechapel in the 1970's Part One a Part Two. gan
Ron McCormick

2 gyfrol Cyh. Café Royal Books, Southport 2018

Stepney Words III, Pub Rich Mix, Llundain 2017

Post-War to Post-Modern: A Dictionary of Artists in
Wales Cyh. Gwasg Gomer, Cymru, 2015

Havelock Street Presbyterian Church, Cyh.
Communimedia, Cymru 2009

NO SUCH THING AS SOCIETY: Photography in
Britain 1967-1987, Cyh. Hayward Llundain 2007 ron.
mccormick@ntlworld.com

ron.mccormick@ntlworld.com

Paul Morris

Rwy'n ddylunydd, ffotograffydd, gwneuthurwr printiadau, hanesydd pensaernïol, cadwraethwr ac athro.

Fel ffotograffydd rwy'n 'flaneur', yn crwydro ar hyd y lle yn cofnodi canlyniadau bywyd ar y stryd. Fel athro roeddwn i'n meithrin amrywiaeth, yn annog arbrofi ac yn troi trwyn ar yr hyn oedd yn ffasiynol yn unig. Fel hanesydd a chadwraethwr pensaernïol rwyf wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ofalu am ein hamgylchedd adeiledig. Fel gwneuthurwr printiadau rwyf wedi arbrofi gyda thechnolegau newydd ac fel dylunydd rwyf wedi ceisio mynd ati i wneud fy ngwaith yn ddidwyll ac yn ostyngedig.

Y llinynnau sydd wedi plethu drwy fy ngyrfa yw'r celfyddydau gweledol, addysg, dylunio, pensaernïaeth, dehongli, cyfathrebu a mentora, a'r cyfan wedi'u cyflwyno gyda hiwmor da a brwdfrydedd. Mae gennyf raddau o'r RCA, yr AA a'r UWE. Rwy'n cynnal diddordeb angerddol mewn dylunio, yn enwedig dylunio Cynhenid, ac yn achub ar bob cyfle a allaf i ymweld ag arddangosfeydd o gelf a dylunio mewn amgueddfeydd ac orielau ledled y byd. Mae teithio ei hun wedi bod yn thema gyson i'm gweithgareddau gan ddarparu ysbrydoliaeth ar gyfer fy ngwaith a'm haddysgu.

Yn ystod y 70au a'r 80au Roeddwn yn ddarlithydd mewn dylunio mewn nifer o wahanol golegau ym Mhrydain ac Iwerddon gan gynnwys Polytechnig Bryste, Prifysgol Cymru, Coleg Celf Caerfyrddin a Choleg Celf Cork. Gweithiais hefyd fel dylunydd llawrydd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Legal and General Insurance, S4C a'r BBC. Fi oedd awdur a dylunydd yr arddangosfa 'Animeiddio' a gynhaliwyd yn Oriel Mostyn, ac a fu'n fuddugol ddwywaith yng nghystadleuaeth Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr 'Art into Landscape'. Yr wyf hefyd yn aelod o nifer o sefydliadau allanol cysylltiedig gan gynnwys, S.P.A.B. y Gymdeithas Bensaernïol a C.P.R.W.



Yn ystod y 90au, deuthum yn aelod llawn amser o staff yn y Gyfadran Celf a Dylunio yng Ngholeg Prifysgol Cymru Casnewydd pan fûm yn gwasanaethu fel safonwr allanol ar Ddylunio Graffeg yn y Frederick Institute - Cyprus, a gwasanaethu ar baneli dilysu yn UWCN ac yn Safonwr Allanol i SEWACN. Fi oedd enillydd y gystadleuaeth dylunio poster rhyngwladol 'Mon Europe a moi' a arddangoswyd yn y Senedd Ewropeaidd, Strasbourg.

Arhosais yn Ysgol Celf a Dylunio Casnewydd (y byddaf yn parhau i'w alw) am weddill fy ngyrfa, lle'r oeddwn yn y pen draw i ddod yn arweinydd cwrs ar Ddylunio Graffeg. Roedd yr athroniaeth addysgu yng Nghasnewydd yn meithrin amrywiaeth, yn annog arbrofi, yn troi trwyn ar y ffasiynol ac yn cefnogi dull gweithredu a oedd yn meithrin yr unigolyn ac yn ceisio cwestiynu unrhyw syniad o'r hyn oedd yr uniongredded a oedd yn ofynnol ar y pryd. Nid oedd gennym unrhyw bresgripsiwn ond dealltwriaeth graff o anghenion yr unigolyn, anghenion y diwydiant a'r gymdeithas gyfan. Rwy'n ei chael hi'n anodd cynnal yr un agwedd at y byd heddiw.

Cefais fy ngeni ar ôl yr Ail Ryfel Byd ond mae'n edrych yn fwyfwy tebygol y bydda i'n dal i fod o gwmpas am y Trydydd!

Rwy'n hoffi fy meic trydan sy'n plygu.



Philip Muirden

Mae Philip Muirden wastad wedi osgoi cynhyrchu gwaith gyda delwedd brand unedig, a luniwyd ymlaen llaw. Mae ei allbwn yn cynnwys dathliadau o ddelweddau retina e.e. cychod pysgota o Aberdaugleddau, gwaith a ysbrydolwyd gan y deallusol, mae myfyrdodau ar y cyflwr dynol yn cael eu cyflwyno'n aml.

Mae adran arall yn defnyddio syniadau a mynegiant o'r hyn sy'n llifo o'r stordy swrrealidd yr ydym oll yn meddu arni.

Addysg

Ysgol Ramadeg Hwlfordd, Coleg Celf Caerdydd NDD, Prifysgol Caerdydd ATD, Academi Frenhinol,

Penodiadau

Pennaeth Celf a Chrefft, Ysgol Gyfun Warrenfield, Slough. 1962-65

Darlithydd, Coleg Celf Mansfield 1965-72

Uwch Ddarlithydd, Ysgol Gelf Casnewydd 1972-91

Tiwtor ymweld, Prifysgol Newcastle 1995

a Phrifysgol Cymru, Caerllion 1998-99

Arddangosfeydd

Gwledydd Prydain mewn Dyfrlliwiâu. Arddangosfeydd Haf yr Academi Frenhinol 1979-83.

Y Gymdeithas Ddyfrlliw Frenhinol 1990/91/95/2003.

Cymdeithas Frenhinol Artistiaid Prydeinig 1990, **Dyfrlliwydd y Flwyddyn y Sunday Times** 1990/91/95/2003.

Rownd derfynol yr Hunting Group 1991/94.

New English Art Club 1994.

Discerning Eye 1999.

Artist Cymreig y Flwyddyn, Caerdydd 2002/07.

Cymdeithas Frenhinol yr Arlunwyr Morol, Llundain 2010.

Casgliadau

Amgueddfa Casnewydd 3, **Cyngor yr Wyddgrug** 4, **Cyngor Celfyddydau Cymru** 2, **Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru** 2, **Cyngor De Morgannwg, Stothard & Pitt** 2, **Coleg Normal Bangor** 1, **Canolfan Gelfyddydau Barnabas** 1. Gwaith ganddo mewn llawer o gasgliadau preifat gan gynnwys Portiwgal, Gwlad Belg a Sbaen.

Sioeau un dyn yn

Llantarnam Grange, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Arlunydd y Mis 1987, **NM&AG Jazz Notes** 1990, Neuadd Dewi Sant Caerdydd, **Oriel y Dociau Aberdaugleddau** 1994, Oriel GPF **Casnewydd** 1997/2004. Oriel St Andrews Caerdydd 2005. **Oriel y Glannau Aberdaugleddau**, o Aberdaugleddau â Chariad 2006/10. **Oriel Queens, Arberth**, West of the Rio Thames 2009, **Barnabas Arts House Casnewydd** 2010/17/18, **Oriel Tref y Barri** 2018.

Cyhoeddiadau

Darluniau ar gyfer Poems 1974 Cyngor y Celfyddydau, Pembrokeshire **Look On Land and Sea** 2005, Art News & Review Erthyglau Beirniadol, **Who's Who in Art** 2000, Artists in Britain Since 1945, **Pembrokeshire Life** 2006/11.

Darllediadau

Radio Wales 1993/94, **National Television** Swap Shop, **BBC Wales** Student Activities, **HTV River Patrol**, Artists of the River Usk 2000.

Asiant: Janet Martin, Barnabas Arts House, Casnewydd.

Gwefannau www.philipmuirdenonlinegallery.com



David Petersen

Cefais fy ngeni yng Nghaerdydd ac roedd fy swydd gyntaf yn gweithio yn y gwaith dur (ASW). Yna, astudiais gelfyddyd gain yng Ngholeg Celf Casnewydd ac yna ym Mhrifysgol Llundain. Gweithiais yn Elstree Studios ar gyfer MGM. Yna bûm yn Bennaeth ar yr Adran Gerfluniau yn Ysgol Gelf Harrow. Yna, euthum yn rhan amser fel darlithydd yn Llundain a Chasnewydd, cyn mynd yn amser llawn fel darlithydd yng Ngholeg Celf Casnewydd.

Yna am 4 blynedd bûm yn uwch-ddarlithydd yng Nghyfadrannau Celf a Dylunio, Coleg Addysg Uwch Gwent.

Roeddwn yn Gyngorydd Celf Weledol i Gymdeithas Gelfyddydau de-ddwyrain Cymru (SEWAA), Gŵyl Celfyddydau Gogledd Gwent a Chyfarwyddwr Gŵyl Cwm Rhymni. Deuthum yn Ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru. Cadeirydd Cymdeithas Artistiaid a Dylunwyr Cymru (CADC) ac aelod o Bwyllgor Crefft Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ac Aelod Panel a Chyngorydd Celfyddyd Gain yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg, Caerdydd.

Cefais fy mhenodi fel Pennaeth Ardal Tri Dimensiwn Coleg Celf Dyfed ac yna'n Bennaeth Cerflunio yn yr un Coleg.

Yna, sefydlais fy stiwdios a'm efail fy hun yn San Clêr (yr wyf yn dal i weithio ynddi).

Cefais fy ethol yn Gadeirydd Cymdeithas y Gofaint Artistiaid Prydeinig (BABA).

Cadeirydd ac aelod sylfaenydd Origin (Dyfed), sydd bellach â nifer o ganghennau ledled Cymru.

Yna, bûm yn 'artist preswyl' mewn nifer o lefydd yma yng Nghymru a thu hwnt. Rwyf wedi bod yn arddangoswr gwadd yn America ar sawl achlysur, yr Almaen, Rwsia (sawl gwaith), Canada, Ffrainc, Sbaen a sawl gwaith ym Mrwsel.

Rydw i wedi gwneud dros 80 o raglenni ar gyfer y teledu, ysgrifennu a chyflwyno, yn ogystal â nifer o ffilmiau ar gyfer y sgrin fawr a dw'n ddim faint o raglenni radio.

Bûm yn gadeirydd yr Ŵyl Haearn Ryngwladol gyntaf, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Arweiniais y Ddirprwyaeth Gymreig i'r Ŵyl Ryng-Geltaidd yn Lorient, Llydaw am 30 mlynedd.

Rwyf wedi cael dros 300 o arddangosfeydd o'm gwaith yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Rwyf wedi cyflawn cannoedd o gomisiynau ledled y byd ac yn parhau i wneud hynny!

Rwyf wedi bod yn ffodus iawn o fod wedi cael, a chael o hyd, rhai cynorthwyyr gwych yn fy stiwdios sydd wedi helpu i greu cerfluniau a gweithiau celf gwych. Mae gen i 3 mab sydd i gyd yn gerflunwyr a gofaint yn eu rhinwedd eu hunain. Mae rhai comisiynau yn mynnu ein bod yn cydweithredu yn eu cynhyrchu ac rydym wedi gwneud hyn gyda brwdfrydedd mawr!



Gerda Roper

Yr Athro **Gerda Roper**

1980 ar ôl gweithio mewn Paentio a Cherflunio ar gwrs Anrhydedd Celf Gain yng Nghasnewydd, Sheffield, Croydon a Hull, dechreuais ddysgu Darlunio Bywyd a Hanes Celf ar y Cwrs Sylfaen yng Nghasnewydd (wrth fy modd).

1980 Arddangosfa 100 o luniau yn Llantarnam Grange, Cwmbrân

1981 Sioe un person yn Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd o 135 o weithiau. Caffaelwyd gwaith ar gyfer y casgliad yno a chan Gymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru.

1984 Symud i Newcastle upon Tyne i fod yn Arweinydd Cwrs ar y cwrs MA Celfyddyd Gain

1985 Dewiswyd ar gyfer "Artistiaid Benywaidd yng Nghymru" Sioe Deithiol gan Gyngor y Celfyddydau o wyth artist wedi'u curadu gan Moira Vincentelli ac yn teithio pum lleoliad ledled Cymru.

1984-2015 Paentiaid, bûm yn cynnal stiwdio a gweithio fel academydd gyda sioeau un person a sioeau grŵp yn y DG a thramor

2015-16 Ymddeol a dychwelyd i fyw i Gymru

2019 Aelod o'r Grŵp Cymraeg

2020 Rwy'n paentio ac yn arlunio ar fywydau a chanfyddiadau menywod

Yr wyf yn cofleidio realiti, myth, alegori a ffuglen. Rwyf wedi bod eisiau bod fel Medwsa gyda phen o nadroedd troellog mewn cyfarfodydd Bwrdd. Rwyf wedi bod eisiau fel Daphne i droi'n goeden pan na chaf fy ngwerthfawrogi mewn perthynas. Rwyf wedi bod eisiau cyfathrebu'r llawenydd a gefais yn fy mhlentyn ac yn fy mhlentynod fy hun.

2020 Yn fy ngwaith rwy'n hoffi defnyddio eiliadau o lonyddwch, ymdeimlad o ddisgwyliad, amser yn cael ei atal, yr angen am dawelwch ac adegau lle mae'n rhaid i un ddal ei anadl. Rwy'n hoffi pan fydd berw bywyd yn llonyddu a math o ddeffroad yn codi yng nghanol y cyfan.

2020 Wrth baentio, rwy'n ceisio cynnwys ymdriniaeth benodol â phaent sy'n atseinio gyda'r pwnc dan sylw. Credaf fod un yn darllen paentiad lawn cymaint gan y ffordd y bydd wedi ei baentio â'r hyn a ddisgrifir ganddo.

2020 Rwy'n hoffi tynnu lluniau mewn cyfresi ac fel gyda phaentio, rwyf wrth fy modd pan fydd momentwm yn cyrraedd.

Rwy'n hoffi sut roedd yn rhaid i Nureyev "wybod beth" roedd e'n ei ddawnsio, a allai, wrth gwrs, ond ddod yn hynny, trwy ei fod ef yn ei ddawnsio. Yn yr un modd, rwy'n ceisio cynnal "beth" yn yr hyn yr wyf yn ei wneud er ei fod yn aml ond yn dod i fodolaeth drwy'r ymdriniaeth.

